

# ECO'R WYDDFA

RHIF 54

RHAGFYR 1980

Pris: 12c

## CYNLLUNIAU LLEOL YN ENNILL GWOBRAU

### CARTREFI HAFAN ELAN



Mae cynllun ystâd yr henoed - Hafan Elan, Llanrug, - wedi ennill gwobr 'Dylunio Tai yn Dda', y Swyddfa Gymreig. Cyflwynir tystysgrif a phlac coffaol i Gyngor Arfon, a bydd seremoni o gyflwyniad swyddogol. Dyma'r tro cyntaf i gynllun gan Gyngor Bwrdeistref Arfon ennill gwobr o'r fath, a dyma'r unig gynllun gan awdurdod lleoli ennill gwobr yng ngogledd neu ganolbarth Cymru eleni. Disgwylir cynnal y seremoni gyflwyno yng Nghaerdydd ar Ragfyr 12.

Mae'r cynllun hefyd wedi ennill gwobr yr Ymddiriedaeth

Ddinesig.

Dyluniwyd Hafan Elan gan y bartneriaeth Bowen, Dann a Davies o Fangor a Bae Colwyn.

Derbyniodd cynllun arall o'u heiddo sef Bryn Llwyn, Pen-y-groes, hefyd wobwr yr Ymddiriedaeth Ddinesig. Comisiynwyd cynllun Bryn Llwyn, fel un Hafan Elan, gan Gyngor Bwrdeistref Arfon.

Bowen, Dann, Davies yw penseiri y Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored fydd yn cael ei hadeiladu ym Mhlas-y-Deri, Llanfairisgaer, cynllun a gomisiynwyd gan y Cyngor Chwaraeon i Gymru.

### GWOBWR DYWYSOGAIDD I FAES PICNIC



Mae un o gynlluniau Cyngor Arfon ym mro'r Eco, wedi ennill Gwobr Tywysog Cymru. Y cynllun buddugol yw'r maes picnic amgylcheddol a gwblhawyd yn Llanberis yn ddiweddar. Cyflwynwyd y wobri Faer y Cyngor, gan y Tywysog Charles ar Dachwedd 12 yn

Aberystwyth.

Dyma sylwadau'r beirniaid: "Amcan y cynllun oedd sefydlu maes parcio, maes cychod, llithrfa a maes picnic ar ddarn o dir a ddefnyddid ers blynnyddoedd fel safle tipio

(Parhad ar y dudalen ôl.)

## RHIFYNNAU'R HYSBYSEBION

Bellach mae'n draddodiad ein bod, yn y ddau rifyn cyn y Nadolig o'r Eco, yn cynnwys nifer helaeth o hysbysebion. Dyma'r amser pryd y cyflwyna ein hysbysebwyrr rheolaidd, ynghyd â nifer helaeth o bobl busnes eraill y fro, eu cyfarchion tymhorol a'u diolch i chwi'r darllenwyr am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Careu ninnau ddiolch iddynt hwythau am gefnogi'r Eco yn y modd hwn.

## CADAIR I IOLA

Enillwyd y Gadair yn eisteddfod Ysgol Brynrefail eleni gan Iola Llewelyn o Ddeiniolen, a chafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad, Mr John Hughes o Fangor am ei stori fer ar y testun 'Gelynyon'. 'Roedd y beirniad yn argymhell cyhoeddi'r stori ar fyrder. Stori yn ymwneud â gelyniaeth yn tyfu rhwng merch a'i thad o achos ei chariad at fachgen nad ystyriai'n deilwng ohoni oedd stori Iola. 'Roedd y beirniad yn canmol ei medrusrwydd wrth drin geiriau a'i defnydd o sgwrs wrth gymeriadu.

Mae Iola yn y chweched dosbarth, yn ddirprwy brif ddisgybl, ac yn astudio Hanes a



Chymraeg. Mae â'i bryd ar fynd i'r Brifysgol.

Iola yw'r ail o'i theulu i ennill y gadair. Ddwy flynedd yn ôl Emyr ei brawd hynaf a gadeiriwyd. (Gweler lluniau tud. 8)

## CARREG A DREIGLWYD



Dyma fel yr oedd, ac y bu ers 10,000 o flynyddoedd. Trowch i'r dudalen ôl am lun arall.

Y mae Cymdeithas Parc Cenedlaethol Eryri o dan gadeiryddiaeth Mrs Esme Kirby yn cynnig £100 o wobwr am wybodaeth a fydd o gymorth iddynt i ddod o hyd i'r fandaljaid a symudodd faen enwog ym Mwllch Llanberis. Crogfaen, neu garreg siglo oedd hon a safai yn amlwg ym Mhen Bwlch, Llanberis. Yr oedd hi'n pwyso rhwng 15 ac 20 tonnall ac yn adnabyddus yn lleol. Byddai teithwyr lleol yn chwilio amdani wrth agosáu at Ben y Pas ac yn rhyfeddu ei bod hi'n gorffwys mewn lle mor anisr. Ar adegau o wynt cryf, yn ôl rhai, byddai'r garreg yn siglo. Mae'n amlwg i'w chymbwysedd perffaith wrthsefyll elfennau'r canrifoedd - Ond ildio fu ei hanes i ddyn yr ugeinfed ganrif.

Welwch chi mohoni hi eto yn ei safle arferol gan fod rhywrai

wedi ei dymchwel o'i lle; gyda chymorth trosolion neu 'jacks' mae'n debyg. Gorwedda'n awr mewn dau ddarn tua 100 troedfedd yn is na'i safle gwreiddiol.

Os edrychir ar hen luniau o Fwlch Llanberis gwelir amryw o'r cerrig siglo hyn yn britho'r llethrau ar y naill ochr a'r llall. Ond erbyn hyn nid oes llawer o'r meini hyn yn sefyll yn eu safleoedd gwreiddiol ac yn awr mae'r amlycaf ohonynt wedi ei symud yn ddianghenraid. Daethant i orffwys ar lethrau'r Bwlch ddeng mil o flynyddoedd yn ôl ar ddiwedd Oes y Rhew.

Nid yw'r traddodiad a gysylltir â'r nodwedd ddaearogol amlwg yma yn peri unrhyw gysur inni, yn ôl yr hyn a ddigwyddodd. Dywed yr hen stori mai arwydd fyddai cwmp y graig o lwyr oruchafiaeth Lloegr dros Gymru.



# ECO'R WYDDFA

Rhif 54  
RHAGFYR 1980

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### GOLYGYDD NEWYDDION

**CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23  
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)  
Dafydd Whiteside Thomas, Bron y  
Nant, Pontrhyallt, Llanrug,  
(Caernarfon 3515).

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony  
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,  
Penisarwaun. (Penyllyn 438)

### TREFNYDD NEWYDDION

**YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,  
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane  
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,  
Ffordd Capel Coch, Llanberis.  
(Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry,  
Morwel, Ceunant (Waunfawr 321).  
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,  
Llanrug (C'fon 4669).

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John  
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug  
(C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian  
Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon  
3776).

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58  
Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:**  
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon  
3227).

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl  
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:  
**BETHEL:** Geraint Elis, Sycharth  
(Portdinorwic 726)

**BETWS GARMON:** Mrs Brenda  
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gwledfa,  
Brynrefail (Padarn 223)

**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel  
(Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO:** Dafydd Price, Tŷ Capel  
(Llanberis 550)

**DEINIOLEN:** Meirion Jones,  
Minafon, Clwt-y-bont (Llanberis 452)

**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro  
Elidir (Llanberis 671)

**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas,  
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel

**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn  
yr Awel (C'fon 3776)

**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9  
Llys y Gwynt, Penisarwaun.

**TAN-Y-COED:** Miss Megan  
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed  
(Waunfawr 355)

**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf  
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.

**TREFNYDD BUSNES:** Goronwy  
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,  
Llanrug.

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf  
o'r wasg ar  
18 RHAGFYR  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
erbyn 10 RHAGFYR  
os gwelwch yn dda.

# Llythgyrau

## ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae'r Adran hon yn awyddus  
iawn i ddenu mwy o deuluoedd  
Cymraeg eu hiaith i weithredu ar  
ein rhan fel rhieni maeth. Fel y  
gwyddoch mae cyfrifoldeb  
stadudol arnom, i ddarparu gofal  
i blant, a'r modd mwyaf  
llywyddiannus o'r hanner, o  
wneud hyn yw'r teulu maeth.

Mewn ardal fel Gwynedd,  
mae'n hynod bwysig fod gennym  
deuluoedd lle mae'r Gymraeg yn  
iaith yr aelwyd, er mwyn sicrhau  
fod iaith gyntaf y plentyn a ddaw  
i'n gofal yn cael ei pharchu. Yn  
anffodus, aflwyddiannus, ar y  
cyfan, fu ein hymdrechion i  
ddenu aelwydydd Cymreig i fod  
yn rhiant maeth. Credwn fod  
rhesymau traddodiadol a  
hanesyddol am hyn, ond yn sicr  
yr effaith yw amddifadu a  
gwanhau ein gwasanaeth yn  
ddirfawr.

Yn y gorffennol, llac iawn fu  
ein hapel i'r Fro Gymraeg, ac  
efallai fod gobaith trwy eich  
papur i dorri tir newydd -  
gwyddom inni yn y gorffennol,  
esgeuluso ein hapel trwy'r  
cyfryngau Cymreig.

D.A. Parry  
Dirprwy Gyfarwyddwr  
Adran Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Cyngor Sir Gwynedd

## CATHOD YN Y BEIBL

Annwyl Olygydd,  
Ynglŷn â chathod y Beibl, y  
mae sôn hefyd yn Jeremeia 50  
adnod 39:  
"Am hynny anifeiliaid gwylltion yr  
anialwch, a chathod a arhosant  
yno, a chywion yr estrys a drigant  
ynddi: ac ni phreswyli hi mwyach  
byth; ac nis cyfaneddir hi o  
genhedlaeth i genhedlaeth,"  
meddir wrth farnu Babilon.

Yn gywir,

G.E. Evans  
Tŷ Newydd,  
Waun,  
Penisarwaun.

## MAE'R OES WEDI NEWID

Annwyl Syr,

Byddaf yn cael pleser mawr  
wrth ddarllen 'Eco'r Wyddfa' bob  
wythnos. Diolch amdano.

Y diwrnod o'r blaen yr oeddwn  
yn meddwl mor ddiolchgar y  
dylem fod yn yr oes hon. Y mae'r  
meddygon yn cael rhagor o  
wybodaeth bob dydd. Y mae'r  
cleifion yn gwella heddiw ond yn  
yr oes o'r blaen ni fyddai gobaith  
iddynt yn aml iawn.

Darllenais rai wythnosau'n ôl  
am fachgen bach o Langefni  
ddaeth i Ysbyty Môn ac Arfon i  
gael tynnu ei 'donsils' ond  
cafodd brofiad trist yno. Cofiais  
innau am y profiad a gefais i pan  
yn ddeg oed. Yr amser hynny yr  
oedd tynnu 'tonsils' y plant yn  
gyffredin iawn. Mor wahanol yw  
cyfleusterau heddiw!

Cofiaf fy hun yn mynd i Festri  
Capel Seilo Caernarfon i gael  
tynnu 'tonsils' ac 'adenoids'. Yr  
oedd amryw o blant yno yn cael  
yr un driniaeth.

Gan fy mod yn byw yn y  
Fachwen rhaid oedd cerdded  
gyda Mam i lawr i Benllyn i ddal  
bws D.M. (fel y galwem ef) oedd  
yn rhedeg o Lanberis i  
Gaernarfon.

Nis gallaf gofio enw'r meddyg  
ond yr oedd Nyrs Closs Evans  
yno. (Cyfnither i mi gyda llaw.) Fi  
oedd y gyntaf i gael y driniaeth.  
'Rwy'n cofio'r bowlen am fy  
wyneb a gorfod cyfrif o un i fyny.

Gan na allwn gerdded allan  
daeth fy mrawd, oedd yn  
gweithio yn Siop Griffith Jones,  
Ironmonger, Stryd Llyn i'm cario  
at y bws i'r maes. Yna car a  
cheffyl Mr John Roberts (John  
Fron Goch) yn ein cyfarfod ym  
Mhenllyn i fynd â ni adra. Aros yn  
fy ngwely wedyn am ychydig o  
ddyddiau.

Tybed oes rhywun o Fro Eco'r  
Wyddfa yn cofio'r amser? Y mae  
fy nioch yn fawr am gael gwella  
mor dda a byw yn ddi-boen er  
hynny.

Yr eiddoch,  
Mrs Ceridwen Williams  
Gwelfryn  
Llanrug.

## O GYNGOR CYMUNED LLANRUG

Annwyl Syr,  
Mae'n fwriad gan Gyngor  
Cymuned Llanrug i ystyried  
gwneud rheol newydd ynglŷn â  
throedfeini ym mynwent y  
Plwyf. Bwriad y Cyngor yw  
gwahardd ailosod troedfeini ar  
feddau sydd yn cael eu hailagor.  
Byddai hyn dros y blynyddoedd  
yn lleihau'r gwaith o dorri'r  
gwair rhwng beddau a byddai  
cyflwr y fynwent yn gwella'n  
raddol. Os oes gan unrhyw un  
sylwadau ar fwriad y Cyngor a  
fyddent cystal ag ysgrifennu ataf  
mor fuan â phosibl. Os na  
dderbynnir gwrthwynebiadau  
bwriada'r Cyngor weithredu'r  
rheol o Ebrill 1, 1981

Yn gywir

G. Jones (Clarc)  
60 Glanffynnon  
Llanrug

## CYNGOR CYMUNED LLANRUG RHYBUDD CYHOEDDUS

Yn unol â Deddf Llywodraeth  
Leol 1972 rhoddir RHYBUDD  
drwy hyn fod dwy sedd wag yn  
bodoli ar Gyngor Cymuned  
Llanrug, y ddwy yn Ward  
Cwm-y-glo.

Os derbynnir cais  
ysgrifenedig oddi wrth ddau  
etholwr o'r Ward priodol o fewn  
14eg niwrnod o ddyddiad y  
rhybudd hwn fe gynhelir  
etholiad i lanw'r sedd. Y mae'n  
angenrheidiol i anfon y  
ceisiadau am etholiad i'r Prif  
Swyddog Gweithredol, Cyngor  
Bwrdeistref Arfon, Neuadd y  
Dref, Bangor.

Oni dderbynnir cais, yna fe  
lenwir y seddau drwy gyfethol.

G. Jones (Clarc y Cyngor)  
60 Glanffynnon  
Llanrug  
Carnarfon

Dyddiedig Rhagfyr 1, 1980

## RHOIDDION

Diolch i'r canlynol am eu  
rhoddion tuag at gostau'r Eco:  
£1.00, Di-enw, Tan-y-coed;  
Di-enw, Clwt-y-bont; Mrs Beti  
Wyn Davies, 82 Pentre Helen,  
Deiniolen.

£2. Mr a Mrs Rowlands, 8 Tai  
Cynfi, Deiniolen.  
£2.00 Teulu 'Kenya', Llanberis.


## MODURDY MENAI



### FFORDD CAERNARFON Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 670882  
Perchennog : J. Evans

## BILL ac EILEEN GRIFFITHS



## Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

### PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da  
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU  
AM 1981  
oddi wrth  
W. J. DAVIES

# MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn 225.



A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

CYFARCHION Y TYMOR  
oddi wrth

# H.E. HUGHES

a'r MEIBION



Ffôn: 444

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS


## Lle Rhagorol I Brynu Eich Anrhegion Nadolig!



# Llanberis Art & Craft

Nadolig Llawn a  
Blwyddyn Newydd Dda LLANBERIS, TEL. 597

## Wrth droed yr Wyddfa . . .



# BWYTY FFERM BRON ERYRI LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty Trwyddedig  
A la Carte  
Bwyd Basgedi  
Bwyd Môr Ffres

Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn

Partion  
Ciniawau  
Gwleddoedd  
Priodasau

Lle i 110 ar y tro  
Ffoniwch i fod yn saff o le



NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
ODDI WRTH HOLL STAFF Y BWYTY



Hefyd dymuna Mr a Mrs Hughes ddiolch i barwb a  
gefnogodd y busnes llefrith dros y blynyddoedd.  
(Fe'i sefydlwyd ym 1928)

Am ddillad plant -



# Basil Brush

a llawer mwy, i blant o fabanod  
i dair ar ddeg oed.

A Gwisg Swyddogol  
Bechgyn a Genethod Ysgol Brynrefail

# HARLEY'S LLANBERIS Ffôn 393

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I  
BAWB



DYMUNA  
CLEDWYN A BETTY  
PARRY

GLAN Y DON  
STRYD FAWR  
LLANBERIS  
301  
NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA  
i'w  
ffrindiau a chwsmeriaid oll

Nadolig Llawn a  
Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
Arfon a Marian Roberts

**CHWARAEON  
GWYNEDD  
SPORTS  
STRYD FAWR  
LLANBERIS**  
Ffôn: Llanberis  
**455**  
Hefyd Y Stryd Fawr  
CAERNARFON 4080

NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA  
i bawb

**Tŷ  
Bwyta**

STRYD FAWR

**Llanberis**

Ffôn: Padarn 487


BWYD DA AM  
BRIS RHESYMOL

Mwy o  
GYFARCHION  
NADOLIG

**L  
A  
N  
B  
E  
R  
I  
S**



ar dudalen 10



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I CHWI OLL

oddi wrth  
ARFON A DILYS PHILLIPS

**Dorothy's**

SIOP 'DAFEDD  
A DILLAD PLANT

38 STRYD FAWR **Llanberis** Ffôn: 772



Nadolig Llawn  
a Blwyddyn Newydd Dda  
i bawb yn  
Llanberis a'r Cylch  
oddi wrth

**CENTRAL  
GARAGE**


LLANBERIS.  
Ffôn: 202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn


**ROYAL VICTORIA HOTEL**  
GWESTY BRENHINOL VICTORIA  
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I CHWI OLL

oddi wrth

 **WESTY  
BRENHINOL  
VICTORIA  
LLANBERIS**

FFÔN LLANBERIS 253



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
i holl ddarllenwyr yr ECO





BRYSIWCH I GAEL EICH

**Teganau**

YN SIOP **E.WILSON HUGHES**  
84 Stryd Fawr  
LLANBERIS Ffôn: 491



NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA

i bawb oddi wrth

**Bessie Jones**  
**Siop**

STRYD FAWR  
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN  
A BLWYDDYN  
NEWYDD DDA



CROCHENDY  
LLANBERIS POTTERY

**SIOP GOED**

STRYD FAWR



Nadolig Llawen  
a Blwyddyn  
Newydd Dda  
i chwi oll



Dymuna  
Mr a Mrs. G. M. EVANS



**CASTLE  
GIFT SHOPS LTD.**

Llanberis (379) Caernarfon (3158)  
ddiolch yn fawr i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid  
am bob cefnogaeth yn ystod 1980  
a dymuno 1981 lewyrchus i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
i chwi oll oddi wrth

DANNY & NERYS ROBERTS

**Bistro**

45 STRYD FAWR  
LLANBERIS

Ffôn PADARN 278

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth

**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ **Llanberis** Perchennog  
Rhydd- Aneuryn  
Feddiart FFÔN : LLANBERIS 277 Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS  
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd  
CANOLFAN DRECIO  
Holwch am ein  
telerau rhesymol



**ROBERT GARTSIDE B.Sc., M.P.S.**



FFERYLLYDD

COMPTON HOUSE  
LLANBERIS Ffôn : 264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL  
Persawriau  
SORTILAGE, LENTHERIC, YARDLEY  
MAX FACTOR  
Ffilmiau a chamerau  
AGFA, KODAK a FUJI  
Dewis da o winoedd a gwirodydd  
NADOLIG LLAWEN I BAWB!

NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth

Wil a Garvin

**TOM  
JONES**

A'R CWMNI



STORFA GIG  
GLYN PADARN  
LLANBERIS  
(Ffôn 319)


**G. Ll. Jones**

ENGINEERING

GROVE HOUSE, LLANBERIS ☎ 322

(G.Ll. Jones & H.Ll. Jones)

GWAITH DUR GRAENUS I SIWTIO BOB  
CWSMER, ER ENGHRAIFFT GRISIAU DIANC  
RHAG TÂN, OFFER FFARM, GIATIAU. HEFYD  
OFFER MEYSYDD CHWARAE AR GYFER  
CYNGHORAU BRO, BWRDEISTREF AC ATI  
CYFARCHION NADOLIG I HOLL  
DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA





## O EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL



*Lola Llewelyn a Maldwyn Williams  
capteiniaid Gwyrfaï y tŷ buddugol.*



*Gwyrfaï — y grŵp pop buddugol.*



*Aelodau o sgets fuddugol Eryri. O'r  
chwith i'r dde: Toby Manning,  
Mandy Tilston a Christopher Lloyd.*



*Enillwyr y mwyaŷ o farciau oedd, o'r  
chwith i'r dde: Manon Williams (dan  
15), Rhian Owen (dros 15), Sharon V.  
Williams (dan 15).*

## CYSTADLEUAETH MIS TACHWEDD

Siomedig iawn fu'r ymateb i lun y ci yn gyrru'r Land-ROVER (dyna'i enw!) o ran nifer y cystadleuwyr a safon y cynigion. Felly, drwg gan y beirniad gyhoeddi na ellir dyfarnu'r wobwr o gan punt yn llawn y tro hwn. Ci-aidd, te!

Beth bynnag, gan fod y 'dolig yn nesáu, byddwn yn anfon rhan o'r wobwr i Mr Arthur V. Jones, Maes Gerddi, Caernarfon am ei bennawd:

"Wel, mae 'na streic 'does?'"

## PENISARWAUN

**YR YSGOL GYNRADD** — Noson Goffi — Dymuna'r prifathro ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd, trwy roddion, trwy gyfraniadau at y stondinau neu drwy eu presenoldeb a'u cefnogaeth ar y noson. Gwnaed elw o £180 tuag at Gronfa'r Ysgol.

**Sul yr Urdd** — Bu dwsin o aelodau Adran Urdd yr Ysgol dan ofal Mrs Ann Evans yn cyfrannu eitem yng ngwasanaeth Sul yr Urdd yn y Capel Mawr, Llanrug.

**Tystysgrifau** — Derbyniodd Sharon Wyn Owen a Carys Wyn Griffiths dystysgrifau i gofnodi eu camp yn mynychu'r ysgol yn ddi-dor rhwng Medi 1979 a Gorffennaf 1980.

**BLAENORIAID** — Llongyfarchiadau i Mrs E. Owen, Minffordd a Mrs Percy Williams, Llys-y-gwynt ar gael eu hethol yn flaenoriaid yng Nghapel Glasgoed.

**DYMUNIADAU GORAU** — i Miss Miriam Thomas sydd ar hyn o bryd ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Mae Miss Thomas yn 92 oed.

**I LUNDAIN** — Bu Dylan Williams, Carrog a Cheryl Edwards, Bryn Rhydd yn Llundain yn ddiweddar hefo'r ysgol.

**CROESO i'n plith** i Brian, June a Rebecca sydd wedi symud i'w cartref newydd.

**SIOP GRON** — Ein dymuniadau gorau i Betty ac Ernest Green a'r plant yn eu cartref newydd yng Nghaernarfon, a diolch iddynt am eu gwasanaeth i ni fel pentrefwyr. Yr un pryd croeso cynnes i berchnogion newydd Siop Gron.

**YN YR YSBYTY** — Mae Mr Tom Davies yn yr ysbty yn Lerpwl yn cael triniaeth ar ei law. Brysiwch adref Mr Davies. Mae pawb yn cofio atoch!

**DAFYDD OWEN** — Nid yw Dafydd Owen, Trefnydd Gwerthiant yr Eco ym Mhenisarwaun, wedi bod yn dda ers talwm. Rydym yn falch o glywed ei fod yn ôl yn ei waith erbyn hyn.

Diolch iddo am ei waith caled i'r Eco o fis i fis.

**NOSON WASAEL** — Cynhelir Noson Wasael, er budd Eisteddfod y Pentref, yn yr Ysgol Gynradd ar Ragfyr 12 am 7 o'r gloch. Bydd Llesiau'r Gweunydd, parti sydd yn cynnwys nifer o ferched o'r pentref, yn canu ar y noson. Croeso cynnes i bawb.

**DYMUNIADAU DA** i Dewi Jones, Bethel (wyr Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt) sydd yn yr ysbty yn Abergele.

**DAMWEINIAU** — Syrthiodd Mrs Rose Jones a chael niwed i'w llygaid, ond da yw gweld ei bod o gwmpas unwaith eto. Brifodd Rhian Williams, Glyn Euron ei ffêr pan syrthiodd i lawr grisiau yn Ysgol Brynrefail. Hefyd bu Nathan Eagles, Tai Ffynnon, yn yr ysbty yn cael pwythau yn ei drwyn.

**SALWCH** — Nid yw Mr Emllyn Jones, 7 Bryntirion a Mr Mike Lamb, 2 Bryn Eglwys wedi bod yn dda yn ddiweddar. Rydym yn cofio atynt.

**CYDYMDEIMLWN** â Mrs E.J. Williams, 12 Bryntirion sydd wedi colli ei brawd ym Methel.

**CLWB YR HEULWEN** — Bydd swper y Clwb nos Sadwrn, Rhagfyr 13 yng Ngwesty Glantraeth, Ynys Môn.

**EGLWYS ST. HELEN** — Cafwyd cyfarfod olaf y tymor o Undeb y Mamau nos Lun Tachwedd 2. Cymerodd y Parch D.G. Williams, rheithor Llanrug y gwasanaeth. Cafwyd noson ddifyr iawn. Rhoddodd ddatganiad ar y delyn, a chân neu ddwy. Balch oeddyd o weld Mrs N.M. Pritchard yn ôl yn ein plith, a hi oedd yn rhoi'r te ynghyd â Mrs E. Williams, Glyn Euron.

**LLONGYFARCHIADAU** i David Williams, 23 Bryntirion ar ei ddyweddiad, a hefyd i Mrs M.J. Roberts, Tai Croesion yn 80 oed ddechrau Tachwedd.

## BETHEL

**LLONGYFARCHIADAU** — I Gôr adrodd Y Rhos ar ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Dyffryn Nantlle. Llongyfarchiadau hefyd i Angharad Price ar gael y wobwr gyntaf am ganu'r piano, i Menna Dauncey Williams am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth adrodd dan chwech oed.

**Y CARNIFAL** — Siomedig oedd y nifer a ddaeth i'r Neuadd nos Wener, Tachwedd 14 i'r cyfarfod cyhoeddus i drafod trefniadau Carnifal 1981. Er hyn penderfynwyd mynd ymlaen i drefnu'r carnifal ac i'w gynnal yn ystod wythnos olaf Mehefin gyda'r carnifal ei hun ar ddydd Sadwrn, Mehefin 17. Dewiswyd y swyddogion canlynol i'r Pwyllgor. Cadeirydd, Mr John Prichard; is-gadeirydd, Mr Sam Jones; ysgrifennydd, Mrs Jennifer Jones; is-ysgrifennydd, Mrs Nora Parry; trysorydd, Mr Gwyndaf Williams; is-drysorydd, Mr Geraint Elis.

Penderfynwyd y byddai'r cyfarfod nesaf, yn ystod mis Ionawr hefyd yn gyfarfod cyhoeddus a gobeithir y ceir gwell ymateb i'r alwad i'r cyfarfod hwnnw, yn enwedig gan y dynion.

**NOSON GOFFI** — Nos Lun, Rhagfyr 1 cynhelir noson goffi yn Ffestri Cysegr. Bydd elw'r noson yn mynd i Gronfa'r Cyfundeb i atgyweirio'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth.

**CLWB Y RHOS** — Mr O.R. Parry oedd yn gyfrifol am noson Clwb y Rhos yn

ystod y mis. 'Roedd Mr Parry wedi trefnu i Mr Gwyn Hefin Jones, Cwm y Glo ddod i sgwrsio ar ynni niwclear, ei werth fel cronfa o ynni a'i beryglon yn y bom. Diolchwyd i Mr Jones gan Mr Islwyn Jones.

**MERCHED Y WAWR** — Nos Fercher, Tachwedd 12 cyfarfu Merched y Wawr yn yr ysgol gyda Mrs Elizabeth Evans yn llywydd y noson. Cafwyd sgwrs a sleidiau difyr iawn gan Helen Jones a Mr Jones o Gaernarfon, gynt o Fethel, ar ei thaith i Oberammergau. Diolchwyd i Mr a Mrs Jones gan Mrs Mair Jones, Glan Gors.

Bu Mrs Mair Jones a Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd yn cynrychioli'r gangen yn y Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth a chafwyd adroddiad cynhwysfawr ar y gweithgareddau gan Mrs Jones.

Mrs Ceinwen Williams a Mrs Lynwen Morris oedd yn gyfrifol am y te a Mrs Mabel Jones enillodd y raffl. Bydd y cyfarfod nesaf ar Rhagfyr 10 pryd y trefnwyd Bwffe a bydd Clychau'r Grug o Lanrug yn diddori. Tâl mynediad fydd 50c.

Trosgrwyddwyd £80 i Gronfa Rhian Wyn, yr elw a wnaed o Sioe Ffasiynau Antur Aelhaearn.

**LLONGYFARCHIADAU** — i Miss Gwyneth A. Evans, BAdd, Ty'n 'Rallt, Seion, ar gael ei phenodi'n brifathrawes Ysgol Felinwnda. Pob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

## NEWYDDION DA!

Fe gofiwch i mi sôn yn rhifyn Tachwedd o'r Eco am ymdrechion grŵp o famau o Benisarwaun i sefydlu ysgol feithrin yn y pentref o dan nawdd y Mudiad Ysgolion Meithrin. 'Roedd y merched, fel y cofiwch, yn cael helynt i ddod o hyd i adeilad. Wel, mae'n dda iawn gennym gyhoeddi fod y mamau wedi llwyddo i sicrhau caniatâd i ddefnyddio Neuadd yr Eglwys yn y pentref trwy garedigrwydd y Pwyllgor Eglwysig. 'Roedd y Pwyllgor Eglwysig wedi ail-ystyried cais y merched, ac wedi penderfynu rhoi eu caniatâd iddynt gynnal yr ysgol yn y neuadd wedi'r cwbl. Mae pwyllgor yr ysgol Feithrin yn dymuno diolch yn fawr i'r Pwyllgor Eglwysig am eu caredigrwydd. Bwriedir dechrau'r ysgol yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser mae'r merched yn apelio am gymorth pawb. Mae angen teganau mawr a mân. Bydd Mrs Nant Roberts, 'Arwel', Pontrhythallt yn fodlon iawn derbyn eich hen deganau. Mae'r Eco'n dymuno'n dda i'r merched, ac yn ategu eu diolchiadau i'r Pwyllgor Eglwysig ym Mhenisarwaun am eu haelioni, a'u cefnogaeth iddynt.

(Gweler 'Yn Eisiau' — tud 19)

**Brysiwch!**  
Archebwch eich

**TWRCI  
NADOLIG**  
a'ch

**CYW IÂR**  
a PHOB MATH  
O GIGOEDD  
ERAILL

**YN AWR**  
gan

**Wavell  
Roberts**  
**CIGYDD**

**LONDON HOUSE  
LLANRUG**

Ffôn:  
Caernarfon 3574

**PEN CIGYDD Y FRO!**

Mynnwch y gorau  
a dewch atom ni!



# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

### PÊL-DROED

Tachwedd 13 Aeth 4 tîm o'r ysgol i chwarae yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Dan 13 - Tim A, ennill 4-3, tîm B colli 6-1. Dan 15: cyfartal 0-0; bechgyn hÿn, cyfartal 0-0.

Mae amryw o fechgyn yr ysgol wedi cael eu dewis i chwarae i dimau pêl-droed ysgolion Arfon. Yn y garfan dan 13 oed mae Huw Jones o Lanrug, Kevin Jones o Ddinorwig a Neal Wannop o Fethel. Yn y garfan dan 15 oed mae Stephen Owen o Gwm-y-Glo a Malcolm Allen o Ddeiniolen. Mae Malcolm Allen hefyd wedi ei ddewis i gael treial i dîm Gogledd Cymru. Yn y garfan bechgyn hÿn mae Karl Williams o Ddeiniolen, Ceris Jones o Lanrug, A Watcham o Lanberis a Carl Wannop o Fethel.

Yn ystod y mis chwaraeodd Karl Williams gyda thîm Gogledd Cymru yn erbyn Sir Amwythig gyda'r Cymry yn fuddugol 1-0.

### NOFIO

Mae 3 o fechgyn y flwyddyn 1af wedi ennill y wobwr efydd - Matthew Shaw o Ddeiniolen, Paul De Boo o Lanrug a Gwynfor Williams o Lanberis. Mae pedair o enethod yr ysgol wedi ennill y wobwr arian - Yvette Mumford, Caryl Pugh, Beata Adams a Sandra Williams.

### SGÏO

Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn y 'British Junior Ski Awards': Dyfarniad Un Seren: Toby Manning, Anthony Ponton, Christopher Ponton, Matthew Shaw, Neil Price, Jessica Williams, Aila Heatherley.

Dyfarniad Dwy Seren: Stephen Owen, Martin Williams, Keith Parry.

### Capteiniaid yr Ysgol

Llongyfarchiadau i'r canlynol - Gareth Williams, Deiniolen - capten y bechgyn, Glyn Jones, Bethel - Is-gapten y bechgyn. Kathy Williams, Deiniolen - Capten y genethod a Iola Llywelyn, Deiniolen, - Is-gapten y genethod.

### DISGO

Ddiwedd y mis diwethaf cafwyd disgo llwyddiannus yn yr ysgol. Gwnaethpwyd elw o £163. Bydd £90 o'r arian yn mynd at gronfa'r ysgol. Mae gweddill yr arian ar gyfer Parti Nadolig a drefnir gan y Chweched Dosbarth i ddisgyblion Ysgol Pendalar, Caernarfon. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

### STRATFORD A LLUNDAIN

Ar ddechrau'r mis cafodd 40 o blant yr ysgol benwythnos diddorol yn Stratford-upon-Avon a Llundain. Yn ystod y pen-wythnos buont yn ymweld â'r 'London Palladium' (Ken Dodd), cae pêl-droed Arsenal, theatr enwog y 'Royal Shakespeare Company' (Richard II), yn ogystal â chael gwibdaith bleserus o amgylch Llundain am fore cyfan.

## GWOBROWYON 1979-80

Yng Nghyfarfod Rheolwyr Ysgol Brynrefail, nos Iau, Hydref 30 penderfynwyd gwobrwyo'r isod am eu llwyddiant yn yr arholiadau A, O, a TAU y Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig.

### Safon 'A'

1. Gwobr Mrs Rowlands i'r ferch a gafodd y canlyniadau gorau yn yr arholiad safon A. Rhoddwyd y brif wobwr i Eira Wynne Jones, Deiniolen (Gradd B mewn Saesneg, Cymraeg ac Ysgrhythur). Rhannwyd yr ail wobwr rhwng Rhian Cadwaladr Parry, Llanberis (B mewn Cymraeg, C mewn Saesneg a D mewn Hanes) a Carol Price, Seion (B mewn Cymraeg, B mewn Gwyddor Tŷ - Coginio).

2. Gwobr Dr. Lloyd Williams i'r bachgen a gafodd y canlyniadau safon 'A' gorau. Rhoddwyd y brif wobwr i Christopher Cheers, Cwm-y-Glo (A mewn Mathemateg, A mewn Ffiseg, A mewn Cemeg a Gradd 1 yn y Papur Arbennig). Canlyniadau na fuasai yn bosibl gwella arnynt ac y mae Christopher wedi ei dderbyn i Gaergrawnt i astudio Peirianeg Gemegol. Rhoddwyd gwobr hefyd i Ian Kevin Owen, Llanberis (B mewn Cemeg, B mewn Ffiseg, D mewn Bioleg) ac Emyr Llywelyn Gruffydd, Deiniolen (A mewn Hanes drwy'r Gymraeg a B mewn Cymraeg).

3. Gwobrau Unigol. Gwobr Mr E. Gwyndaf Evans mewn Ysgrhythur i Eira Wynne Jones.

5. Gwobr Mr David Jones mewn Mathemateg i Jennifer Kisalu (A mewn Mathemateg Ychwanegol).

### Safon 'O'

Gwobr arbennig i Menna Deulyn Williams, Bethel (5 Gradd A, 3 Gradd B).

Gwobrau eraill i: Gwyneth Davies, Dinorwig (2A a 5B), Eleri Ellis, Llanberis (3A a 3B), Carolyn Anne Jones, Ceunant (2A a 6B), Alice Jane Walton, Brynrefail (2A a 3B)

### T.A.U.

Gwobr arbennig i: Colin Lloyd Jones, Llanrug (6 Gradd 1 a 3 Gradd 2).

Gwobrau hefyd i: Ruth Evans, Bethel (5 Gradd 1, 2 Gradd 2); Yvonne Hughes (Cwm-y-Glo) - (3Gradd 1, 4 Gradd 2); Alison Vaughan Williams, Ynys Iago (3 Gradd 1, 4 Gradd 2); Alison Vaughan Williams, Ynys Iago (C Gradd 1, 3 Gradd 2); Julie Williams, Bethel (4 Gradd 1, 2 Radd 2); Trefor Williams, Llanrug (4 Gradd 1, 1 Gradd 2).

Llongyfarchiadau iddynt ar ganlyniadau canmoladwy iawn.

### YMGYRCH GWERTHU RECORDIAU CYMRAEG

Casglwyd £168 o archebion gan ddisgyblion yr ysgol. Y gwerthwr gorau oedd Geraint Jones. Y recordiau mwyaf poblogaidd oedd rhai Trebor Edwards a Hogia'r Wyddfa.

## THEATR BARA CAWS Theatr i Chi

Os nad ydych wedi clywed am y cwmni hwn o'r blaen, mae'n hen bryd ichi wneud hynny, gan mai grŵp o actorion a cherddorion proffesiynol ydyn nhw sydd wedi bod wrthi ers dros dair blynedd bellach yn ceisio sefydlu gwasanaeth Theatr Gymuned yng Ngwynedd.

Holl bwrpas Theatr Gymuned yw dod â pherfformiadau proffesiynol graenus atoch chi, boed o yn y neuadd bentref, ysgol gynradd/feithrin/uwchradd, clwb ieuenctid, gwesty, festri'r capel, neu hyd yn oed yn yr awyr agored os yw'r tywydd yn caniatáu! Cyfle i bawb ddod at ei gilydd i fwynhau adloniant gwerth chweil heb orfod teithio'n bell o'u cartrefi.

Rhan o swyddogaeth Theatr Bara Caws yw darparu rhai sioeau yn arbennig i blant o bob oedran, rhaglenni sydd fel rheol yn cael eu perfformio o fewn oriau'r ysgol. Mae theatr yn un ffordd ardderchog o gyflwyno addysg i blentyn - syniadau newydd sy'n siŵr o aros yn ei gof. Sioe sydd ar hyn o bryd (dechrau Tachwedd) yn cael ei pherfformio i blant mewn Ysgolion Uwchradd ledled Gwynedd yw 'Job o Waith' - rhaglen ar ddiweithdra sy'n ceisio cynnig atebion ymarferol gobeithiol i'r rhai fydd yn gadael yr ysgol ac yn gorfod wynebu'r broblem o chwilio am waith. Er gwaetha'r sefyllfa bresennol, tydi hi ddim yn sioe ddigalon, coeliwch neu beidio!

Mae'r rhai hynny sydd eisoes wedi gweld y cwmni dawnus yma wrth eu gwaith yn siŵr o fod yn disgwyl yn eiddgar am ymweliad y 'Bynsan Binc' i'w hardaloedd. Mae hi'n debygol o gyrraedd eich hardal chi rhwng mis Rhagfyr a diwedd Ionawr, felly da chi, peidiwch â cholli'r cyfle hwn i fynd i'w gweld - Parti Mawr ar gyfer y teulu i gyd yn llawn hiwmor a cherddoriaeth gyfoes. Yn cymryd rhan ymhlith eraill yn y perfformiadau bydd Dyfan

Roberts, Myrddin Jones, Valmai Jones, Iola Gregory, Catrin Edwards a hefyd Gari Williams.

Cynigir y sioe anhygoel yma i gymdeithasau lleol am ddim ond £50 - cyfle i chithau godi arian yn eich hardal ac i fwynhau noson gyffrous, wahanol, yn y fargen. Gallwch gysylltu â'r cwmni drwy ffonio Bangor 55579 neu ysgrifennu atynt i'r Coleg Normal.

Os ydych chi erbyn hyn yn meddwl fod angen gwasanaeth Theatr Gymuned barhaol yng Ngwynedd, fel ag a geir bron ymhob ardal arall yng Nghymru bellach, ysgrifennwch at Gyngor Sir Gwynedd i fynegi eich barn. Mae mwy o gefnogaeth leol yn angenrheidiol i ddyfodol y cwmni, ac os yw plant a phobl Gwynedd am gael gwasanaeth Theatr Bara Caws yn eu hardaloedd yna mae angen eu cefnogaeth hollbwysig hwythau yn yr ymgyrch i roi'r cwmni ar dir cadarn, fel nad oes raid i'r aelodau wasgaru ac amddifadu pobl Gwynedd o'u gwasanaeth.



O'r chwith i'r dde: Catrin Edwards, Dyfan Roberts, Valmai Jones, Iola Gregory a Myrddin Jones. Isod: Gari Williams.



Lle GWYCH Ar Gyfer Noson Allan!

## GWESTY'R FOELAS (PREIFAT) LLANRUG

(Perch. Richard a Meirwen Thomas)  
FFÔN: CAERNARFON 4652

PRYDAU BASGED BLASUS  
BAR CLYD Â DEWIS DA O DDIODYDD



## LLANBERIS

**DIOLCHWN** - I Mrs Meira Bryn Hughes am ohebu newyddion y pentref.

**CRONFA MICHAEL McGOUGH** - Cafwyd Noson Goffi ac arwerthiant yn y Ganolfan nos Fercher, Tachwedd 5 i gychwyn Cronfa leol i gynorthwyo Cronfa Michael McGough sydd yn gwneud ymchwil ar wahanol afiechydon ar yr iau mewn plant. Casglwyd swm o £300. Dymuna Mrs Brenda Hughes a'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Mae angen pwyllgor yn yr ardal i godi mwy o arian i'r Gronfa. Os oes rhywun â diddordeb mewn ymuno â'r pwyllgor a fuasent mor garedig a chysylltu â Mrs Haghnes, 87 Maes Padarn neu ffonio Llanberis 495.

**GARTRE' O'R YSBYTY** - Da iawn yw clywed fod y clefion a fu'n aros yn yr ysbty, rhai am beth amser, wedi gwella ac wedi dychwelyd adref - Doctor Vyrnwy Jones, Mr Percy Allen, Dôl Elidir, Mrs T.W. Williams, Baladeulyn, Stryd Newton, Miss Carys Hughes, Fron Goch.

**GADAEL YR ARDAL** - Yn ystod y mis diwethaf symudodd Mr a Mrs John Roberts, Halford Hill i Loegr i fyw. Rhyw symudiad go sydyn oedd hwn ar ôl i Mrs Roberts dychwelyd adref o'r ysbty. Bydd chwith i'r ardal ar eu holau, roeddynt bob amser mor gymwynasgar ac awyddus i roi help llaw gyda phob achos da. Roedd Mr Roberts â diddordeb eithriadol yn y clwb pêl-droed lleol, ac yn gadeirydd pwyllgor y Ganolfan. Dymunir adferiad llwyr i Mrs Roberts a blynnyddoedd lawer o ddedwyddwch i'r ddau yn eu cartref newydd.

**LLONGYFARCHIADAU** - I Garry a Llinos Foulkes, Maes Padarn ar enedigaeth eu merch fach.

**YN YR YSBYTY** - Mae 'Bessie' priod Hugh Peris Pritchard, Dinorwig House yn Ysbyty Môn ac Arfon. Mewn ysbyty yn Birmingham mae Hugh G. Rowlands, un o feibion y diweddar Mr a Mrs Morris Rowlands, Bee Hive. Ers gadael yr ardal lawer blwyddyn yn ôl bu Hugh yn gwasanaethu gyda'r Gwasanaeth Awyr yn Lloegr ac yna yn Llandudno. Yn un o ysbytai Caernarfon, mae Mr Owen Thomas, Stryd Turner. Dymunir adferiad llwyr yn fuan iawn i'r holl gleifion.

**ADREF O'R YSBYTY** - Mae Mrs Siân Thomas adref o'r Adran Arennau yn Ysbyty Glan Clwyd. Hefyd adref o'r ysbty mae Mr J.O. Griffiths, Cambrian Terrace, William Roberts, 13 Goodman Street a Margaret Fleming, Dôl Elidir. Gobeithio y byddent oll yn parhau i wella ar ôl eu dychweliad i'w cartrefi.

**ARWERTHIANT I'R DEILLION** - Trefnodd Denny a Richard Cuthbertson, Ripin House arwerthiant yn Ffestri Gorffwysfa ar fore Sadwrn yn ystod mis Hydref a gwnaethant elw o £55.20 tuag at Gymdeithas Deillion y Gymanwlad.

**CYMDEITHAS LENYDDOL CAPELI LLANBERIS** - Ar Hydref 27 agorwyd y Gymdeithas gyda Noson Lawen wedi ei threfnu gan Hugh R. Jones, Preswylfa. Cafwyd noson ddiffrwyd iawn ac estynnwyd croeso i aelodau capeli Jerusalem a Nant Padarn. Ar Tachwedd 10 mwynhawyd darlith gan y Parch Harri Parri, B.A., B.D., Caernarfon a'i destun ydoedd 'Milltir Sgwâr' - hanes Llŷn, Bro ei febyd, ac yn wir cafodd pawb noson fythgofiadwy. Mae'r aelodau yn edrych ymlaen at fis Ionawr pryd y ceir y rhaglen 'Broc Môr' gan J.O. Roberts, yr actor a'r darlledydd o'r Benllech, ac estynnir croeso cynnes i bawb i'r noson arbennig yma.

**CLWB ERYRI** - Cynhaliwyd cyfarfod y mis yng Ngwesty Gwynedd dan lywyddiaeth Mr Cledwyn Williams,

Llanrug. Dangoswyd ffilmiau gan MR Emlyn Owen, Bethel.

**DAMWAIN** - Yn ystod y dyddiau diweddar yma cafodd William, mab Mr a Mrs Gartside, Y Fferyllydd, Rampton House ddamwain yn yr ysgol. Deëllir iddo dorri ei fraich. Dymunir iddo adferiad yn fuan iawn.

**CLWB Y MAMAU IFAINC** - Yn y cyfarfod diwethaf o'r clwb cafwyd arddangosfa a chyfarwyddiadau ar sut i wneud dillad i'r teulu gan Mrs Margaret Brierly, Llangoed. Bu Mrs Eirlys Ellis a Mrs Vivian Thomas yn cynorthwyo drwy wisgo'r dilladau i'w dangos i'r aelodau. Roedd pawb wedi mwynhau noson ddefnyddiol a difyr iawn.

**CYDYMDEIMLAD** - Estynnir cydymdeimlad ag amryw o'r ardalwyr sydd wedi colli rhai annwyl yn ystod y mis: Mae Mrs Eirlys Ellis wedi colli modryb (chwaer i'w thad). Bu farw yn yr ysbty yng Nghaernarfon. Mrs Margaret Roberts, Dôl Elidir, Frank, Len a John Pitts, Bill, Bert a Meira Pitts, Dennis ac Elizabeth Pitts wedi colli eu chwaer, Margaret oedd yn byw yn Nhregarth ond a fu'n byw am flynyddoedd yn Llanberis.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** - Llywyddwyd y cyfarfod diwethaf gan Mrs Hannah Jones, pryd y cafwyd adroddiad gan Mrs Gwyneth Jones, Brynrefail o'r Gynhadledd Flynnyddol a gynhaliwyd yn Llundain. Cafwyd anerchiad hefyd gan Mrs Dorothy Jones, Cwm-y-glo. Diolchwyd i'r siaradwyr gan Mrs Mair Eluned Owen a Mrs Ray Williams.

**GWERTHFAWROGIAD** - Darperir 'Te Bach' i'r pensiynwyr yn y Gnofan bob yn ail bnawn Gwener ac mae cefnogaeth dda iawn iddo. Mae'r pensiynwyr yn mwynhau rhyw awr o gwmnïaeth ei gilydd ac ambell stori a sgwrs. Yn ystod mis Hydref trefnwyd wythnos arbennig ar gyfer yr henoed, ac eleni rhoddwyd rhodd ariannol sylweddol iawn i bob aelod o'r clwb. Diolchodd Mr W.P. Williams, Stryd Bethesda i'r pwyllgor am eu haelioni, ac am y diddordeb a ddangosir yn y pensiynwyr. Ar ran y pwyllgor diolchodd Mrs M. Bryn Hughes i'r siaradwr am iddo werthfawrogi gwaith y pwyllgor. A chymryd i ystyried fod dros 200 o aelodau yn y clwb ar hyn o bryd, fe gymer dipyn o drefnu a darparu i godi'r arian; a dywedodd mai i aelodau'r pwyllgor roedd y diolch am eu haelioni a'u cefnogaeth cyson i'r clwb. Nid oedd dim yn ormod o drafferth i'r gwragedd caredig yma er budd yr henoed.

**LLONGYFARCHIADAU** - Estynnir llongyfarchiadau i Gwilym, mab hynaf Mr a Mrs Mearig Evans, Fern Band, ar ei ddywedd i'w Bethan, merch hynaf Mr a Mrs MBORRIS, Glynllifon, Groeslon.

**NOSON GOFFI** - Cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus iawn yn y ganolfan wedi ei threfnu gan Mrs Breda Hughes, Maes Padarn a'r elw at 'The Children's Lives Research', a dymuna hi ddiolch i bawb am eu haelioni a'u cefnogaeth i'r mudiad dyngarol yma.

**UNDEB Y MAMAU** - Ar y 4ydd o'r mis hwn cynhaliwyd y cyfarfod misol o Undeb y Mamau dan arweiniad y Canon Alun Jones. Y gŵr gwadd oedd y Parch Hugh Griffiths, rheithor Llanllyfni a Phen-y-groes. Rhoddodd araith ddiffrwyd iawn ar ei hoff emynau a'u hawduron. Diolchwyd iddo gan Mrs Nellie Roberts gyda Mrs Nancy Jones yn ategu'r diolchiadau.

**YR URDD** - Cynhaliwyd Disgo yn y ganolfan noson Calan Gaeaf gyda Michael Griffith yn gofalu am y Disgo. Cafwyd noson bleuser iawn gan y plant yn eu gwisgoedd ffansi, a dymuna swyddogion yr Urdd ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

**MARW** - Ar Hydref 25 bu farw

Gwilym Roberts, Well Street yng nghartref ei ferch Sheila a'i phriod yng Nghaernarfon. Roedd yn 67 oed, ac wedi bod yn fregus ei iechyd ers rhai blynnyddoedd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Llanbeblig gyda'r Parchedigion Marcus Robinson a Trefor Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â Michael ei fab, a Sheila ei ferch a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**WALTER ROBERTS** - Ar Tachwedd 15, ar ôl gwaeledd blin dros gyfnod maith, bu farw Walter yn eithriadol o sydyn. Bu'n dioddef ers gadael y chwarel, lle y bu'n gweithio er pan adawodd ysgol. Un o fechgyn yr ardal ydoedd Walter, yn gymeriad hoffus, yn hynod o dawel a dymunol bob amser ac yn fawr ei barch gan bawb yn yr ardal. Claddwyd ef ym mynwent Llanrug, gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu. Estynnir cydymdeimlad yr ardal i'w weddw, hefyd i'w unig chwaer, Carrie, yn eu profedigaeth.

**DAMWAIN** - Wrth ddod allan o'i modur syrthiodd Sydney, priod Morris (Moi) sydd yn awr yn byw yng Nghorby, a thorri ei dwy fraich. Anlwcus iawn ynte. Gobeithio y caiff adferiad yn fuan.

**CLWB METHEDIG ERYRI** - Yn ystod y mis mae amryw o aelodau'r clwb wedi dod adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbty, a rhai eraill wedi eu caethiwo yn eu tai oherwydd afiechyd, neu'r tywydd. Cafwyd arddangosfa ar sut i drefnu a gosod blodau mewn basgedi ar Dachwedd 10, yn cynnwys awgrymiadau ar sut i ddefnyddio blodau i addurno ar gyfer y Nadolig, ac i wneud torchau. Roedd yr arddangosfa'n ddiddorol iawn, a thalwyd y diolchiadau gan y Matron A.M. Jones SRSN., Llywydd. Llongyfarchwyd yr ysgrifennydd, Mr E.O. Thomas, ar gael ei ethol yn aelod o bwyllgor ymgynghorol y methodig dros Gymru.

**Y LLENG FRENHINOL BRYDEINIG** - Dathlwyd Sul y Cadoediad gan Adran Cylch Llanberis ddydd Sul, Tachwedd 9. Cafwyd gorymdaith o Swyddfa'r Post i lawr y Stryd Fawr at y Ganolfan lle cafwyd y gwasanaeth, gyda Chapeiniaid y Llang Frenhinol Brydeinig, y Canon Alun Jones, B.A., a'r Parch Marcus Robinson, B.D. yn arwain. Cymerwyd rhan gan Seindorf Arian Llanberis, Cadlanciau R.W.F.B., y Llang Frenhinol Brydeinig, Cadlanciau Sant Ioan, y 'Guides' a'r 'Brownies'. Rhoddwyd torchau ar y gofologn.

**YR URDD** - Cynhaliwyd noson ddiffrwyd gyda disgo Calangaeaf yn y Ganolfan ar Hydref 31 a threfnwyd nifer o gemau a chystadlaethau. Michael Griffiths oedd gyda'r recordiau a dymuna'r pwyllgor ddiolch iddo ac i Miss Barbara Styles am feirniadu'r dillad gorau a'r lanternau a hefyd am oruchwylio'r gemau.

Dymuna enwau buddugwyr y gwahanol gystadlaethau: Sonia Williams, Mair Williams, John H. Hughes, Keirion Hughes, David Prydderch, Melanie Sellars, Nigel Rowlands, Glenda Roberts, Irene Evans, Iorwen Jones, Stephen Owen, Ian Hughes, Yvonne Owen, Judith Jones, Wesley Parry.

Dymuna pob aelod adferiad llwyr a buan i Mrs Siân Thomas.

**O'R YSBYTY** - Dymuna Amanda Sellars ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati pan oedd yn ysbytai Dewi Sant a Môn ac Arfon. Diolcha hefyd am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ac i'r rhai a fu'n gyfrifol am gludo ei theulu yn ôl ac ymlaen i Fangor.

**DYMUNIADAU DA** - Ar ran ei chydweithwyr ar yr Eco hoffwn dymuno adferiad buan a llwyr i ohebydd yr Eco yn Llanberis, Mrs Siân Thomas. Brysiwch wella, Siân. (- Gol).

NADOLIG LLAWEN A  
BLWYDDYN  
NEWYDD  
DDA



**ROSALINDA**  
FFASIYNAU  
MERCHED

32 Stryd Fawr  
LLANBERIS  
Ffôn 459

NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA

oddi wrth

**P  
E  
A  
T  
S**



AR AGOR  
9am - 8pm  
7 DIWRNOD  
YR  
WYTHNOS

STRYD FAWR  
LLANBERIS

**CYFARCHION  
Y TYMOR**

oddi wrth



**IDWAL  
THOMAS**  
SIOP ESGIDIAU  
Stryd Fawr  
**LLANBERIS**

Ffôn PADARN 282



## HOME GUARD PENISARWAUN

gan Y Gwalch

Wrth weld darlun o 'No. 2. Platoon Home Guard', Penisarwaun rwan, yn rhifyn Tachwedd, 'fedrwn i ddim llai na chofio'r profiadau gefais i yng nghwmni un neu ddau ohonyn nhw, sydd yn dal i fod yn ddifyrrwch i mi wrth feddwl amdanynt.

'Roeddwn i ymysg dau neu dri o'r rhai ieuenga oedd wedi ffugio eu hoed i gael gwn. Dyna pam yn un peth y cefais i fy meichio hefo'r 'machine gun' hwnnw y byddwn i'n ei gario i bob man fel mellith, ac i ben y Caera Mawr ganol nos.

'Roeddwn i'n 'Lance Corporal' hefyd ac yn perthyn i adran Corporal William Edwin Jones, craig y Dinas, (tad Mrs Mary Davies, Llys-y-Gwynt, Penisarwaun). 'Roedd o'n hen foi diri dano, ac mi fyddwn i'n tynnu drwyddo fo yn reit rwydd. Roedd o wedi bod yn gwasanaethu ym Mesopotamia yn y rhyfel cyntaf ac yn rhedwr tan gamp. Hyd yn oed hefo ni, mi fasa yn rhoi ras reit dda i rai hanner ei oed.

Rhyw Sul braf 'roedden ni mewn ymarferiad hefo 'Home Guard' Caernarfon a'r prif amcan oedd meddiannu 'machine gun' oedd ganddyn nhw y tu ôl i wal gerrig ar ben y Twtil, ac fe ddewiswyd William Edwin, a fi a Bobbie Roberts Penisarwaun, ac Elfed Wyn Jones, Tŷ Gwyn, i wneud y weithred.

'Roedden ni yn cael ein cludo yn y plygain hefo bws i gyffiniau Pengelli, lle 'roedd y mwyafrif llethol i aros ar ôl am ryw awr cyn ein dilyn, a llawn cystal hynny. 'Doedd rhai ond prin wedi dechrau sobri ar ôl y noson cynt.

Dyma ni'n pardduo ein hwynebau fel tasa ni ar gychwyn hefo'r commandos am St Nazaire, a gadael popeth ond bagiad bach o fomiau peilliad (fel grenades) a'n gynnau, ar ôl. Ond 'roedd William Edwin am fynnu dal ei afael yn ei botel ddŵr, a rheswm da pam!

I ffwrdd â ni yn y tywyllwch ar draws y caeau, drwy wrychoedd a thail gwartheg, ac yn fuan 'roedden ni yng nghyntedd ysgol Syr Hugh Owen. Dyma ni'n gwibio ar draws y ffordd un ar ôl un, ac wrth ddringo tros y relins mawr pigog, dyma Bobbie Roberts yn cael pancan, a dyma bigyn haearn yn pasio rhwng ei glun o a'r 'Field Dressing' oedd wedi ei wnio y tu mewn i'w drowsus o, nes yr oedd o'n hongian yn y fan honno fel dol bren. Mi 'ddaru ni wastraffu lot o amser i'w gael o'n rhydd.

'Roedd Wil Edwin wedi bod yn gyndyn i gychwyn hefo pedwar. 'Roedd o'n dal i ddweud y basa dau yn llawn digon, ac, fel y profwyd, yn hynny o beth 'roedd o'n iawn.

Wedi ailymgynnull dyma ni yn cael ein hwynebu hefo rhesiad o erddi go helaeth wedi eu

hamgylchynu â muriau uchel. Erbyn hyn 'roedd ffurf Pen Twtil i'w weld yn y pellter yn erbyn awyr y wawr gynnar, a 'doedd gennym ni ddim dewis ond croesi'r gerddi er mwyn cadw o'r golwg.

'Roedden ni wedi croesi dwy neu dair yn llwyddiannus a distaw, ond dyma ni yn dod ar draws wal a threlis eang o rosynnau wedi ei osod arni. Dyma Wil Edwin yn defnyddio'r trelis fel ysgol, ond 'doedd hwnnw ddim wedi cael ei fwriadu ar gyfer y fath argyfwng. Torrodd yn glec, a gollwng Wil ar wastad ei gefn i'r ardd. Y munud hwnnw dyma ffenestr llofft y tŷ yn agor a dyma rhyw hen siorten yn ei choban yn rhoi ei phen allan a golwg arni hi 'run fath â Buddug pan oedd honno yn ymlid y Rhufeiniaid. Dyma hi'n dechrau ar Wil Edwin, a oedd brin wedi codi oddi ar y llawr. Erbyn hyn 'roedden ninnau wedi cyrraedd pen wal ac yn gwrando ar y ddaidl yn datblygu.

Wedyn, dyma w'r y ddynas, neu pwy bynnag oedd yn aros hefo hi yn ymddangos wrth ei hochr hi yn y ffenestr, a phan ddeudodd Wil ei bod hi'n ddrwg gennym ni am y trelis, ond fod yn rhaid iddo fo gofio bod yna ryfel yn mynd ymlaen, dyma'r dyn yn dweud ei fod o'n cofio tair a'i fod o wedi bod mewn dwy, a hyd yn oed yn ystod y rheini wnaeth o ddim difrod yng ngerddi pobl. A dyma fo'n gofyn ar ei ben, beth ddiawl oedd ni'n ei wneud yn ei ardd o.

'Roedd o'n gwestiwn reit anodd i'w ateb bedwar o'r gloch ar fore Sul, ond mi gawson ni ddigon o synnwyr i beidio sôn am Ben Twtil, achos roedden ni'n gwybod hyd yn oed os nad oedd ar ochr hogia dre yn barod, y basa fo siŵr o fod ar ôl gweld ei drelis rhosod yn rhacs ar lawr. Felly dyma ni yn tynnu llaw hyd ei ben o trwy sicrhau y buasem ni yno fore trannoeth efo hoelion i atgyweirio'r difrod, ond mi fuo'n rhaid i ni fynd allan drwy'r giât i'r lôn fel defaid i'w cadw nhw'n ddistaw a gaddo peidio dringo ychwaneg o walia'r diwrnod hwnnw.

Erbyn hyn 'roedd hi'n gefn dydd golau, a dyma William Edwin yn gwneud ei benderfyniad bythgofiadwy. Dyma fo'n gadael Bobbie Roberts ac Elfed Wyn ar ôl. Ei farn o oedd na fuasai pedwar byth yn gallu mynd y gweddill o'r daith heb i rywun gael eu gweld.

Dyma fo'n dweud wrthyf am fynd efo fo, ac 'roeddwn i'n gwybod yn iawn pam. 'Roedden ni ill dau ymysg y potsiars ffesant gorau ar Stad y Faenol ac yn gallu symud ar hyd wyneb y ddaear mor ddisylw â bronwennod.

Trosodd â ni i ardd tŷ nesaf.

'Roedd Wil Edwin wedi dod â'i wn dau faril a blancs powdwr a thywod, ac 'roedd gen inna'r hen Felgian un baril sydd gen i byth.

Dyma fo'n dweud wrthyf i am wardiad yn ymyl rhyw lwyni mafon tra'r oedd o'n gwneud 'reci', a thra y buo fo i ffwrdd mi aeth y ffrwythau yn drech na fi; a dyma fi'n dechrau eu sgatsian nhw. Pan ddaeth o yn ei ôl, dyma fo'n dweud fod yna un ardd arall, ond y buasai'n rhaid i ni fod yn ofnadwy o ofalus. Beth bynnag trosodd â ni, ac 'roedd yr ardd honno yn wylltach na'r lleill ac yn llawn o lwyni rhododendrons. 'Roeddwn i'n mynd ar y blaen, a dyma'r glec mwyaf uffernol y tu ôl i mi. Pan drois i rownd dyna lle 'roedd Wil Edwin ar ei wyneb ar lawr wedi cael bagliad ac wedi tanio un baril. 'Roedd cŵn y fro ar ddi-hun erbyn hyn a 'chwaneg o ffenestri yn agor, a lleisiau, ac yno y buom ni am gryn ugain munud ar lawr cyn i bethau dawelu.

'Does gen i fawr o gof sut yr aethon ni o'r fangre honno, ond y peth nesa dyma ni'n canfod ein hunain ar ein boliau yn chwys diferol yng nghanol eithin yn union o dan Ben Twtil, a dyma Wil Edwin yn agor ei botel ddŵr, ac 'roedd beth oedd ynddi hi wedi mynd yn hanner ffroth ond mi 'roedd o'n dderbyniol. 'Cropar cyn mynd tros y top' medda fo.

Wedyn dyma ni'n rhannu'r bomiau peilliad a phenderfynu i mi grafangio i'r ochr bellaf a fynta' ddod o'r ochr yma.

'Roedd 'na dri y tu ôl i'r wal; dau hefo hetiau dur, ac un efo cap fflat. 'Roedd dyn y gwn yn siglo hwnnw yn ôl a blaen fel 'tasa fo'n disgwyl Adolf ei hun. Ond 'doedden nhw ddim yn breuddwydio fod yna neb ar ei gwarthaf nhw.

Ar ôl crafangio yn ddigon pell, dyma fi'n gwaeddi ac yn taro dyn y gwn yn ei gefn hefo bom beilliad. Dyma fo'n troi yn ei syndod a chael un arall yn ei frest. Erbyn hyn 'roedd Wil Edwin wedi codi'r ochr arall ac wedi rhoi 'chwaneg o beilliad iddo fo yn ei wegil nes 'roedd o'n edrych fel melinydd, ac 'roedd o wedi mynd yn lloerig. Dyma ni'n neidio trosodd a thanio'r blanc, ac 'roedd y gêm trosodd mor ddi-lol â hynny.

Erbyn deall rhyw hen Gyrnol wedi osgoi y Somme oedd y cap fflat a fo oedd y dyfarnwr. A llawn cystal ei fod o yno, achos collwyr gwael oedd y ddau arall ac 'roedden nhw wedi mynd i fygwth dechrau rhyfel arall hefo ni.

Ond 'roedden ni'n ddynton i gyd hefo'r Cyrnol. 'Jolly good show Corporal', medda fo wrth Wil. 'Damn good planning' a rhyw lysnafedd fel yna, nes roedden ni wedi braidd mynd i

gredu ein bod ni wedi gwared Mafeking. A dyna fo'n gofyn oedd arnom ni angen rhywbeth.

Wel, yr un peth roedden ni ar ein cythlwg a dyma ni'n dweud hynny.

"Where's your field kitchen?" medda fo.

Ond y cwblwyddem ni oedd bod yr Adran HQ yn berwi uwd yn rhywle yng nghaeau Pengelli. Ond 'doedd y Cyrnol ddim i'w darfu. I ffwrdd â fo hefo ni i lawr i Sgwâr Twtil lle 'roedd ganddo fo gar a dreifar. Dyma fo yn ein stwffio ni i'r sêl ôl a dyma ni'n chwyrenllu i fyny lôn Bethel gan basio rhai o'r hogiau yn dal i slogio am Gaernarfon.

Mi gawson hyd i Jeff Raca a Wil John Brynrefail yng nghongl rhyw gae yn troi crowciad o uwd hefo polyn ffensio. Dyma ni'n saliwio'r Cyrnol a diolch a dyma ni'n stwffio llond ein boliau o'r uwd a the i'w olchi i lawr. Wedyn dyma ni'n mynd i din clawdd am fygyn yn yr haul a gadael i bwy fynnai setlo brwydr fawr Caernarfon.

Bob tro y bydda' i'n pasio'r Twtil mi fydda i'n cofio ogle blodau eithin a chwrw cynnes, ac am Corporal William Edwin Jones a'i wn dau faril.

(Cafwyd entw a chyfeiriad 'Y Gwalch' — Gol.)

### ARWEINWYR Y CORAU BUDDUGOL



Iola Llewelyn, arweinydd côr deulais Gwyrfa'i a Sioned Jones (dde) arweinydd côr pedwar llais Eryri yn eisteddfod ysgol Brynrefail.

### NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA A DIOLCH YN FAWR I BAWB SYDD WEDI CEFNOGI CLWB METHEDIG ERYRI AM 1980

E.O. Thomas  
(Ysgrifennydd)  
Clwb Methedig Eryri  
Ffordd Tŷ Du  
Llanberis  
Ffôn Padarn 324



# O6190 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

**MYNYDDOEDD  
ENWOG Y BYD**

## ARARAT

“Ac yn y seithfed mis, ac ar yr ail ddydd ar bymtheg o'r mis, y gorffwysodd yr arch ar fynyddoedd Ararat.” (Genesis viii. 4.)

Prif enwogrwydd y mynydd yw ei gysylltiadau ag arch Noa, ond fe sylwch fod yr adnod yn sôn am fynyddoedd Ararat; ac yn wir mae dau fynydd o'r enw hwn – Ararat Fawr ac Ararat Fechan – ar y terfyn rhwng gwledydd Twrci, Iran a Rwsia.

Mae chwedlau a thraddodiadau am y mynydd yn ddirif. Un o'r traddodiadau hyn oedd mai mynydd sanctaidd oedd Ararat Fawr, ac nad oedd yn bosibl i unrhyw fod dynol ddringo i'w gopa. Roedd mynachod a lleianod yn byw ar lethrau'r mynydd, ac erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf roedd Cwfaint Sant Iago wedi ei adeiladu'n uchel ar ochr y mynydd, gyda thai a gerddi o'i gwmpas. Fil o droedfeddi'n uwch na'r cwfaint roedd addoldy bychan arall, eto wedi ei gysegru i Sant Iago. Ond roedd trychineb ar ddigwydd: ar ddechrau mis Gorffennaf 1840 brawychwyd holl drigolion yr ardal gan ddaeargryn anferth. Chwalwyd y cwfaint, y tai a'r gerddi, a'r addoldy bychan gan y daeargryn, a chladdwyd llawer o'r trigolion dan dunelli o gerrig, pridd a chreigiau. Tybiai rhai mai dial yr oedd y mynydd oherwydd ddeng mlynedd ynghynt, cafodd y mynydd ei ddringo am y tro cyntaf erioed gan ddyn o'r enw F. Parrot. Dywedai rhai ei fod wedi amharu ar

**TUDALEN I'R  
PLANT: HEN AC  
IFANC  
Gan  
DYFRIN  
Y DEWIN**



sancteiddrwydd y mynydd.

Ychydig o ddringo a fu ar y mynydd wedyn am tua chanrif, ond ers yr Ail Ryfel Byd, anfonwyd nifer o archwilwyr i'r ardal i ddringo ac i wneud astudiaethau archaeolegol. Yn 1957 cafwyd adroddiad od iawn gan Americanwyr oedd wedi hedfan o gwmpas y mynydd. Adroddwyd fod siâp arch anferth i'w gweld ar lethrau'r mynydd! Ond er i eraill chwilio, ni chafwyd unrhyw brawf pendant o hyn. Tybed a yw'r mynydd yn parhau i guddio cyfrinachau o gyfnod Noa?

x x x

## CYFRINACHAU DYFRIN Y DEWIN

### EICH CI OEDD HEB DDIOD

Pwy oedd biau'r ci? Sut gi oedd o? Pam na chafodd y ci ddiodyd? Nid yw hyd yn oed Dyfrin y Dewin yn gwybod yr ateb i'r cwestiynau hyn. Beth felly sy'n bwysig ynglŷn â'r frawddeg?

Daliwch y papur ar ei ben i lawr ac yna'i ddal gyferbyn â drych. Mae'n bosibl edrych i'r drych a darllen y frawddeg yn berffaith glir, er bod pob brawddeg arall o chwith! Beth sydd i'w gyfrif am hyn?

Yn rhyfedd iawn, mae rhai llythrennau'n ddarllenadwy o'u troi ar eu pennau i lawr a'u dal gyferbyn â drych; ond dim ond os gwneir y ddwy broses. Dyma'r llythrennau od:

B C C H D D D E H I O

– a dyma 'chwaneg o eiriau tebyg i'r rhai yn y frawddeg gyntaf:


BEIC HEDD BOCH BODIO HEIBIO!

COCH COCHI BEDD BEICHIO

Ceisiwch ffurfio brawddegau eraill tebyg i'r gyntaf allan o'r llythrennau a'r geiriau uchod.

x x x

Beth am anfon llythyr i Dyfrin y Dewin i ddweud yr hyn yr hoffech ei weld yn y dudalen 06190



### ANIFEILIAID GWYLLT PRYDAIN

Atebion pos Tachwedd (Rhif 53)


Yr anifeiliaid oedd wedi eu cuddio yn y sgwâr oedd:

Ysgyfarnog, Draenog, Carlwm, Gwenci, Ystlum, Pathew, Llwynog, Llyg, Twrch Daeor, Llygod, Dyfrgi, Morlo, Gwiwer, Pry Llwyd, Hydd a Charw.

Doedd neb wedi anfon yr holl enwau i mi, ond cafodd Bethan Pennant Jones, 15 Eryri Estate, Bethel, bob un ond dau; a hi felly sy'n ennill y wobwr o £ -00. Llongyfarchiadau Bethan!

### PWY SYDD AR Y MAP?

Tref fechan ar lan afon Okanagan yn British Columbia, Canada yw OLIVER. Cafodd ei henwi ar ôl John Oliver, un o wleidyddion amlwg British Columbia rhwng 1918 a 1927. Oherwydd ei fod yn rheolwr teg, cafodd ei alw'n "Honest John". Cafwyd llawer o welliannau i'r ardal yn ystod cyfnod ei lywodraeth, yn enwedig cynllun anferth i ddyfrhau'r tir, a chynllun arall i ddenu pobl i ymsefydlu yn yr ardal.



### WYDDOCH CHI . . .

fod pysgod yn pysgota? Mae pysgodyn a elwir yn Angler Fish yn defnyddio golau i bysgota am ei fwyd. Mae'r golau ar flaen 'gwialen' sy'n ymestyn o drwyn y pysgodyn. Pan ddaw pysgod llai i archwilio'r golau, yna bydd yr Angler Fish yn eu llyncu am fod mor fasnelyd!

### DRAENOG



Clywed bod siop moto beics am gael ei hagor yn Llanrug. Pawb wrth eu bodd fod gobaith cael "Draenog marw ar y ffordd" o'r diwedd!

**SETIAU  
TELEDU LLIW  
AIL LAW  
MEWN CYFLWR  
RHAGOROL  
SIOP DELEDU**

**T  
CEPAS**

Ffordd yr Orsaf  
**LLANRUG**  
(Ffôn: Llanberis 205  
gyda'r nos)

### W.J.GRIFFITH

**PLYMAR  
A GOSODWR  
GWRES CANOLOG**

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

**GOSODWR SWYDDOGOL  
SYSTEMAU  
GWRESOGI OLEW**

**GWRES BP**



Aelod o'r National  
Association of  
Plumbing and Mech-  
anical Services  
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,  
Dim un dasg rhy fawr.



## BRWYDR GYMREIG DROS YR ARAF EU MEDDWL

Bydd Cadeirydd newydd Cymdeithas Caernarfon a'r Cylch dros rai Araf eu Meddwl yn rhoi rhan helaeth o'i amser i frwydro dros sefydlu corff a fydd yn gweithredu ar lefel genedlaethol Gymreig.

Wrth gael ei ethol yn gadeirydd am 1980-81 dywedodd Mr Gwynn Davies o'r Waunfawr nad yw'r Gymdeithas Genedlaethol dros rai Araf eu Meddwl yn fodlon ystyried sefydlu cangen genedlaethol yng Nghymru. Yn hytrach y mae Gogledd Cymru ynghlwm wrth Ogledd orllewin Lloegr.

"Gyda nifer o gymdeithasau lleol ar hyd a lled Cymru yn gysylltiedig â'r Gymdeithas Genedlaethol byddai sefydlu Cangen Ranbarthol Gymreig yn ddelfrydol i uno'r gweithgareddau yng Nghymru ac arwain unrhyw weithgarwch angenrheidiol i sicrhau fod y Swyddfa Gymreig yn gwneud ei dyletswydd," meddai.

Ond gan fod hyn yn ymddangos yn amhosibl dywedodd ei bod yn awr yn hen bryd dod o hyd i ddewis arall. "Bydd yn rhaid rhoi blaenoriaeth gyntaf i gamau i sefydlu corff i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn," meddai.

Rhagwelai Mr Davies y bydd pwysau fel hwn yn anhepgor yn ystod y blynyddoedd nesaf yn wyneb y caledi a fydd yn effeithio ar yr araf eu meddwl a'u teuluoedd oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth ar wario.

"Yr wyf yn rhagweld caledi i'r araf eu meddwl a'u teuluoedd onibai eu bod yn ffurfio grwpiau sy'n ddigon cryf a milwriaethus i fynnu eu hawliau," meddai.

Bydd hynny yn eithriadol o anodd, meddai, oherwydd nad yw hwn yn un o'r meysydd sy'n ennill pleidleisiau i gynghorwyr ac ymgeiswyr.

"I siarad yn blaen - y mae gwella ffordd neu gael golau ar stryd mewn etholaeth yn llawer gwell abwyd i gael pleidleisiau," meddai.

Felly, meddai, bydd yn rhaid darbwyllo cymdeithas mai mesur o wareiddiad cenedl yw maint ei gofal dros y gwan. Ar hyn o bryd caiff yr araf eu meddwl eu haddysgu a'u hyfforddi mewn adeiladau lle nad oes hanner digon o le i wneud y gwaith yn iawn.

"Bydd y rhai hynny sydd mewn oed gadael ysgol yn wynebu cyn bo hir y ffaith na fydd unlle iddynt fynd i gael eu hyfforddi. Nid oes gan y rhai hynny sydd mewn canolfannau hyfforddi obaith o gael gwaith cysgodol mewn gweithdai. Ychydig iawn iawn o ddatblygiad a fu yna i sicrhau cartrefi preswyl

iddynt i'w cynorthwyo i ddod yn annibynnol yn ystod bywyd eu rhieni," meddai.

Fel arfer, meddai, y mae'r araf eu meddwl ar waelod y ciw - a hynny wedi blynyddoedd o beidio â bod yn y ciw o gwbl.

Yn Glerc Ynadon wrth ei alwedigaeth, ac yn dad i fachgen araf ei feddwl, bu Mr Davies o Fryn Eithin, Y Waunfawr, yn weithgar eithriadol yn y maes hwn gydol y 25 mlynedd diwethaf. Y mae'n un o'r aelodau a sefydlodd y gymdeithas yng Nghaernarfon a bu hefyd yn flaenllaw yn yr ymgyrch i sefydlu Cyngor Gogledd Cymru y gymdeithas. Bu'n gadeirydd cymdeithas Bangor yn y gorffennol ac yn is-lywydd yng Nghaernarfon.

Y mae'n olyn Mrs Elinor Wigley, Hen Efail, Y Bontnewydd, yn Gadeirydd. Etholwyd Mrs Wigley yn Is-lywydd newydd gyda'r Gymdeithas.

Wrth ymddeol o'r Gadair soniodd hithau hefyd am "y cwtogi brwnt ar wario cyhoeddus" a ddaeth 'fel cwmwl' dros weithgareddau'r gymdeithas y flwyddyn ddiwethaf. Rhybuddiodd mai camp fawr y dyfodol fydd, nid ennill tir, ond cadw'r hyn sydd gennym. "Y gofid mawr yw mai dirywio yn hytrach na gwella a fydd hanes y gwasanaeth," meddai.

"Bob amser pan fydd Llywodraeth yn torri i lawr ar yr arian a werir yn gyhoeddus y rhai gwannaf mewn cymdeithas a fydd yn dioddef.

"O fewn ein Cymdeithas daeth ymdeimlad o ofn ac arswyd - ofn rhag i'n meibion a'n merched dan anfantais beidio â chael chwarae teg," meddai.

Dywedodd nad brwydr leol yw hi mwyach ond brwydr yn erbyn y Llywodraeth ganolog a tharodd hithau yr un tant â Mr Davies ynglŷn â gweithredu ar lefel Gymreig.

"Y mae'n rhaid i'r cymdeithasau ar lefel Gymreig ddod at ei gilydd ar fyrder i berswadio'r Swyddfa Gymreig i sicrhau arian i gadw, ac yn wir i ddatblygu'r gwasanaeth.

"Os ydym am ein hystyried ein hunain yn bobl wâr yna ein dyletswydd yw sicrhau blaenoriaethau'r gwan," meddai.

Swyddogion y Gymdeithas yng Nghaernarfon am y flwyddyn nesaf yw: llywydd, Cemlyn Williams, is-lywyddion, G.H. Egerton, Mrs Elinor Wigley, cadeirydd, R. Gwynn Davies; is-gadeirydd, Mrs S. Skillicorn; ysgrifennydd, Mrs Pat Parry, Trysorydd; Mrs B. ab Iorwerth; ysgrifennydd cynorthwyol, Mrs Margaret

Denton; ysgrifennydd y Wasg, Mrs S.M. Evans; Aelodau cysylltiedig, Mr Barry Creek, Mrs Catherine Jones a Mr R.H. Morgan; cynrychiolydd rhanbarthol ac enwebau, Mrs Pat

Pritchard. Aelodau o'r pwyllgor gweithredol: Mrs Elinor Wigley, Mrs Ann Hughes, Mrs Irene Williams, Mrs Ann Owen a Mrs Betty Griffiths.

## AR LWYBR NATUR gyda Leslie Larsen



A ydych chi wedi gweld yr anifail gwyllt hwn yn eich cymdogaeth? Ffwlbarth ydyw, ac erbyn hyn un o'r anifeiliaid prinnaf yng ngwledydd Prydain; y mae'n perthyn i'r wenci, carlwm, a bele'r coed. Tua chan mlynedd yn ôl yr oedd y ffwlbarth yn gyffredin yn yr Alban, Lloegr ac yn ein gwlad ni, ond erbyn hyn, oherwydd ei erlid gan ddyn ni welir mohono yn yr Alban na Lloegr. Ond wrth lwc, fe ddeil yn gyffredin mewn rhannau o Gymru gan gynnwys ein bro ni.

Y lleiaf o'r teulu yw'r wenci, anifail bach cochfrown a gwyn, sy'n ddeng modfedd o ffyrnigrwydd dihafal, fel gweddill y teulu. Y nesaf o ran maint yw'r carlwm; mesura hwn tua phymtheng modfedd o flaen ei drwyn i'w gynffon. Browngoch a melynwyn yw lliw ei gorff gosgeiddig gyda blaen ei gynffon yn ddu, hyn sydd o gymorth i'w adnabod oddi wrth ei gefndryd.

Creadur hardd yw'r mwyaf o'r teulu sef bele'r coed. Mae o'n ddwy droedfedd o hyd ac yn meddu ar gôt ffwr hardd a thrwchus o liw browngoch tywyll. Gyda'i gyflymder, cydbwysedd a'i sioncrwydd ymysg canghennau'r coed gall y bele ddal gwiwerod. 'Welais i erioed mo'r creadur hwn yn wyllt a'r unig berson y gwn i amdano a'i gwelodd, oedd y diweddar Mr Griffith (Guto) Garej Gwalia, Caeathro. Wrth iddo ddod adref yn hwyr un noson gwelodd un yr ochr yma i Feddgelert. Os gwn i a oes rhai o ddarlennwyr yr Eco wedi gweld un?

Yn sicr, yr oedd ein cyndeidiau yn gyfarwydd â'r anifeiliaid hyn. Ystyriwch rai o'u dywediadau: yn wancus fel wenci; cyn wynnedd â charlwm (fel gwarchodliw fe dry ei liw yn wyn ar dir uchel yn ystod y gaeaf); ac yn drewi, neu'n ddiog fel ffwlbarth.

Anifail ychydig yn llai na bele'r coed yw'r ffwlbarth ac fel mae'r dywedaidd yn awgrymu mae arno arogl anhyfryd. Y mae ganddo chwarennau sy'n adweithio pan fydd y ffwlbarth wedi ei ddychryn,

drwy greu drewdod y byddai'r 'skunk' yn ymfalchio ynddo. Dywedodd y diweddar Mr Arthur Ellis, Weirglodd Goch wrthyf ei fod wedi dod o hyd i un yn ei dŷ gwair. Y peth a hudodd Mr Ellis i'r lle oedd yr arogl cryf sy'n nodweddiadol o'r ffwlbarth. Gwelais hwn droeon yn ein bro ni, gyda'r nos gan amlaf ond weithiau yn ystod golau dydd. Fe'i gwelais wrth Erw Fforch, Ynys Iago, ger Winllan Penisarwaun, wrth ymyl Parc Isaf, Llanrug, droeon ym Mhontrug, ac unwaith ar Lôn Llys Brynrefail. Hoff fwyd y ffwlbarth yw cwningod ond hefyd ar ei fwydlen y mae llygod mawr a bach, llyffantod, adar a'u hwyau, nadroedd ac ambell iâr. Gan ei fod yn difa cymaint o lygod mawr a chwningod 'rydw i'n sicr ei fod yn fwy o gyfaill i ni nag y rhoddir clod iddo.

Un sy'n debyg i ffwlbarth yw'r ffuret neu ffured ac yn ôl yr hyn a ddywed y gwybodusion mae ei darddiad ef yn wreiddiol o ffwlbarth y paith sy'n gynhenid yng Ngwlad Pwyl a Rwsia. Mae ambell ffuret yn dianc oddi wrth ei berchennog a byw allan fel anifail gwyllt a chael ei gamgymryd am ffwlbarth.

Os digwydd i chi weld ffwlbarth neu bele'r coed beth am adael i'r Eco wybod os gwelwch yn dda.

STORFA

# Mace

## O.R. & M. PARRY

### Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael  
o fwydydd, llyisiau  
a diodydd



DYMUNA  
JERRY & MARGARET  
WARDLE

**SWYDDFA'R  
POST**  
*a Stordy  
Cwm-y-glo*

NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'w cyfeillion oll

**Cyfarchion Nadolig o  
GWM-Y-GLO  
a BRYNREFAIL**



**GORS BACH  
PANEL  
BEATING  
SERVICE  
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR  
24 AWR



Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a  
Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH  
**MORRIS BROS.**  
BECWS GORS BACH, CWM Y GLO  
Ffôn: Llanberis 430

HEFYD YM  
MECWS PEN Y BRYN  
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 268  
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 5526

Dymuna  
Bill ac Eira

**Gwesty'r  
Fricsan**

(Snowdon Hotel)  
CWM-Y-GLO  
Llanberis 289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
i'w holl ffrindiau a chwsmeriaid



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth

**C & D.WAGER  
Llythyrdy  
BRYNREFAIL**

Ffôn: LLANBERIS 241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer  
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau  
Dilladau Llyisiau Melysion Tybaco

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth bawb yn

**London  
Garage**

CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 234



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
Mrs. Fowler

**Siop Chips  
Cwm-y-Glo**

Ffôn Llanberis 514

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



# DEINIOLEN

Y penillion a'r englyn a roddwyd i Seindorf Deiniolen ar ôl iddynt chwarae yn y Clwb Cymraeg ym Mangor.

Yma o'n blaenau heno  
Oll yn eu dillad crand,  
Ac yn eu hwyliu gorau  
Gwelwyd aelodau'r band.  
Band lle? Wel, band Deiniolen siŵr  
I gyd yn chwythu fel un gŵr.

Mor ddfyfr oedd yn Nhachwedd,  
A'i ddyddiau duon bach,  
Gwrando ar gyrn yn seinio,  
Eu nodau clir ac iach,  
A nodau'r band yn siŵr i chi  
Yn codi ein calonnau ni.

Yn chwythu â'u holl egni,  
Pawb ar eu gorau glas  
O denor mwyn y cornet  
I ru'r cyrn dwbl bäs.  
'Roedd pawb o ddfifri wrth ei waith  
A phawb yn un ar hyd y daith.

Daw sŵn y band bob amser  
Â chyffro i galon dyn  
Drwy sain y cynnau reddog  
A'u curiad yn gytŵn.  
Wrth wrando daw y gwres i'r gwaed  
Nes cadw'r amser efo'n traed.

Bois Deiniolen oedd heno, - yn y Clwb,  
Â'u sŵn clir yn swyno:  
Dewrion brwd, band arian bro,  
Am awr a fu yn morio.

LLONGYFARCHIADAU i Mr John D. Evans, Maes y Dref, Clwt-y-bont ar ennill gwobr gyntaf ac ail yn yr Adran Lenyddiaeth yn Eisteddfod Llanrug.

DIOLCH - Dymuna Mrs Rhona Jones, Pentre Helen, a Mrs Barbara Lambert, Hafod Olau, ddiolch yn garedig i bobl Deiniolen am eu cyfraniadau i helpu'r rhai a ddiodeffodd oherwydd y daeargryn yn Algeria. Y swm a gasglwyd oedd £100. Diolch i bawb.

DIOLCH - Dymuna Mrs Beti Wyn Davies, 82 Pentre Helen ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn ei phroffedigaeth o golli priod annwyl. Diolch yn arbennig i Dr Nora Marren.

YSGOL FEITHRIN - Cyfarfu pwyllgor yr Ysgol Feithrin leol yn ddiweddar i wneud trefniadau at y Nadolig. Penderfynwyd cynnal Parti Nadolig i'r plant ar Ysgol 11 ac fe drefnir raffi i godi arian i brynu teganau newydd.

Carem dynnu eich sylw at y ffaith fod adeilad yr Ysgol Feithrin (Hen Ysgol y Babanod) wedi cael newydd wedd. Mae'r ystafell chwarae yn werth ei gweld o'r nenfwd i'r llawr. Mae ein diolch yn fawr i bawb a wnelo â'r gwaith ac estynnwn wahoddiad cynnes i unrhyw un i alwi mewn i gael golwg arno.

Carai'r pwyllgor wneud un apêl i fechgyn y pentref. Os gwelwch yn dda hogiau, dangoswch dipyn bach o barch at lafur ac ymdrechion pobl eraill a rhoi'r gorau i ddinistrio'r adeilad, sydd mor annwyl a phwysig i blant bach yr ardal. Diolch yn fawr.

CYNGOR EGLWYSI - Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yng Nghefn-y-waun Tachwedd 10. Cynhelir Oedfa Garolau Undebol yng Nghapel Ebenezer ddydd Sul Rhagfyr 21 am 5.30 p.m. pryd y cyferir rhan gan eglwys a sefydliadau'r ardal. Gwneir casgliad tuag at Ysgol Pendarar.

Bore'r Nadolig cynhelir Gwasanaeth y Cymun yn Nisgwylfa am 9.30 y bore.

CYMGDEITHAS Y CHWIORYDD DEINIOLLEN - Nos Iau, Tachwedd 6 cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y

Chwiorydd yn Disgwylfa. Dechreuwyd gan y llywydd Mrs Miriam Lewis. Cafwyd noson ddfyfr gyda'r Parch Trefor Lewis yn dangos darluniau a rhoi adroddiad ar ei ymweliad â Gwlad yr Haf. Dangosodd lawer o eglwysy adnabyddus a hefyd abaty. Cydymdeimlwyd â phawb oedd yn wael. Diolchwyd i Mrs M. Evans a Mrs Hughes, Dinorwig Terrace am y te. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Rhagfyr 4. Dechreuir gan Mrs Nan Owen a rhoddir y te gan Mrs Jane Jones, Caradog Place Mrs Marian Wyn Williams, Deiniol Road.

Y SEINDORF - Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Hydref - £25, Miss S. Wood, Fron Heulog, Dinorwig; £15, Miss Nesta Williams, Rhwng-y-ddwryd; £10, Mrs E. Williams, Arfon House. Tachwedd - £25, Mrs Lona Lewis, Rhydfadog; £15, Mr G.O. Jones, Pentre Helen; £5, Mrs J. Williams, Rhydfadog.

Ar Dachwedd 1 bu'r Seindorf mewn cystadleuaeth ym Mae Colwyn. Gwahoddwyd pedwar band i gystadlu, a'r canlyniadau oedd; 1. Bedwas o Dde Cymru; 2. Ffynnon Groyw; 3. Deiniolen.

Ar fore Sul y Cadoediad bu'r Seindorf yn gorymdeithio drwy ddinas Bangor, ac yn ddiweddarach yn y dydd buont yn cadw gwasanaeth yn Neiniolen. Brynhawn Sadwrn Tachwedd 8 syfrdanwyd yr ardal pan ddaeth y newyddion fod arweinydd y Seindorf sef Mr Eric Foster wedi marw yn frawychus o sydl.

Wedi mynd ar daith oedd Mr Foster â rhai o'i ffrindiau i gystadleuaeth Bandiau Glofeydd Prydain ond yn anffodus bu farw'n annisgwyl.

Yr oedd Mr Foster yn enedigol o Farnsley, ond roedd cysylltiad ganddo â'r ardal ers blynyddoedd gan ei fod wedi priodi â geneth leol, ac fe ymgartrefodd y ddau yn y pentref ryw ddwy flynedd yn ôl, ac ers hynny y fo oedd arweinydd y Seindorf a mawr fydd y golled ar ei ôl. Bu'r angladd brynhawn Gwener Tachwedd 14.

Nos Sadwrn, Tachwedd 15 penderfynwyd mai crystal fyddai mynd ymlaen â'r cyngerdd yn y Clwb Cymraeg ym Mangor dan arweiniad Mr J.E. Morris gan mai dynasai dymuniad Mr Foster.

Gobeithir i'r Band gystadlu ddiwedd y mis hwn yng nghystadleuaeth pencampwr Gogledd Cymru sydd i'w cynnal ym Mangor dan arweiniad Mr George Thompson.

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd Pwyllgor Blynyddol y gangen nos Fawrth, Tachwedd 11 yn Ystafell y Seindorf. Y siaradwr gwedd oedd Mr Dafydd Orwig a daeth aelodau hen a newydd i wrando ar ddadansoddiad diddorol o'r digwyddiadau yn y gynhadledd a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref. Swyddogion am y tymor 80-81: llywydd, Mr Gwyn Parry; is-lywydd, Mr Trystan Iorwerth; ysgrifennydd: Mr Barry Jones, trysorydd, Miss Mair Rees Jones. Cynhelir Cinio Nadolig y gangen yn Llety, Caeathro nos Wener, Rhagfyr 19. Gofynnir i'r aelodau a'u ffrindiau roi eu henwau i aelodau'r Pwyllgor os ydynt â diddordeb mewn mynd.

Enillwyr Clwb Cant Tachwedd: £15 - rhif 102; Mr Barry Jones, Tŷ'r Faenol; 120: rhif 59, Mrs Hannah Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.

DIOLCH - Dymuna Mrs Rowlands, 8 Tai Cynfi, Deiniolen ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd gan aelodau o'r teulu, cymdogion a chyfeillion yn ystod ac wedi ei harhosiad yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Diolch arbennig i'r Meddyg

teulu a'r meddygon a'r nyrsus yn yr ysbyty.

DIOLCH - Dymuna Tracey Anne Williams, 15 Pentre Helen, Deiniolen

ddiolch i'w theulu, ffrindiau a phobl yr ardal am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod yr amser y bu yn yr ysbyty.

## O SIAMBR SELWYN

FYDDWCH chi'n cael blas ar ddarllen ambell i lyfr sawl gwaith drosodd? Wel, mi fydda i. Un llyfr a ddarllenais droeon yw 'Hen Atgofion' W.J. Gruffydd, a choeliwch neu beidio 'rwy'n gweld rhywbeth newydd ynddo bob tro y darllena' i o.

Ar wahân i ambell ddarn o farddoniaeth, llyfrau eraill y caf flas arbennig ar eu darllen trosodd a throsgod yw llyfrau Caradog Prichard. Rwyf wedi darllen 'Un Nos Ola' Leuad' sawl tro, ar wedi cyflwyno detholiadau ohono i blant yr ysgolion y bŵm yn dysgu ynddynt. Hefyd caf yr un mwynhad pan ddarllenaf ei gyfrolau eraill.

Sylweddoli wrth ddarllen 'Afal Drwg Adda' dro'n ôl, mai'r Eisteddfod Genedlaethol gynta' i Caradog Prichard ymweld â hi oedd Prifwyl Caergybi ym 1927, ac wrth gwrs, fe ddaeth adre o'r Steddod honno yn gwisgo'r gyntaf o'i dair coron genedlaethol.

Mae beirdd yn dewis a dethol eu geiriau yn boenus o ofalus fel arfer, ond wn i ddim am yr un bardd a aeth i gymaint o drafferth â Charadog Prichard ynglŷn ag un gair. Yn fuan ar ôl iddo bostio prydded 'Y Briodas' ar gyfer 'Steddod Caergybi, fe sylweddolodd iddo gamsillafu un gair, ac fe aeth yr holl ffordd ar gefn ei feic o Lanrwst i Gaergybi, i dŷ'r ysgrifennydd, a newid yn un gair anghywir ar y copi o'i bryddest, cyn i'r ysgrifennydd anfon y cerddi i'r beirniad.

Credaf i Garadog Prichard ymweld â thre Pwllheli pan oedd y 'Steddod' yno ym 1925, ond aeth o ddim i'r maes, felly mae'n gywir dweud iddo ennill y goron yn y 'Steddod Genedlaethol gynta' iddo ymweld â hi.

Gresyn na fyddai mwy yn troi i mewn i Glwb Tan-y-bont ar nosweithiau Mawrth i 'Ymysg y Pethe'. Cafwyd eisoes ddarlithiau diddorol gan W.H. Roberts ar 'Hen Idioma'u'. Y Dr John Gwilym Jones, ar 'Syr Thomas Parry-Williams', a Wil Jones, Croesar 'Natur'. Edrychwn ymlaen at nosweithiau difyr yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, y Waunfawr, I.B. Griffith, Yr Athro Bedwyr Lewis Jones, Alwyn Samuel a J.O. Roberts. Gwledd o sgyrisau yn sicr, ac mae croeso i chwi ymaelodi. Y gŵr gwadd Noson Gŵyl Ddewi fydd y Prifardd Gwilym R. Jones, Dinbych. Trowch i mewn ambell nos Fawrth, mae cwmniaeth ddfyfr yn Nhan-y-bont.

Cefais eisteddfod hapus iawn yn Llanaelhaearn eleni eto. Hen gyfaill coleg i mi, sef Mr Walter Davies, Amlwch oedd fy nghyd-feirniad. Rydym yn cael cwmni ein gilydd yn aml y dyddiau hyn - a melyn yw'r sgwrs bob amser. Mae'n debyg fod Mr R.O. Williams, y Bala yn fy nghyfrif i yn feirniad caredig iawn, oherwydd cadair Aelhaearn oedd y drydedd cadair i mi ei dyfarnu iddo.

Melyn oedd y seiat a gafodd Walter, Miss Haf Morus, Mr Peleg Williams a minnau ym mharlwr Tŷ Capel rhwng y ddau gyfarfod; o flaen tanllwyth o dân.

Fu gen i 'roed ddi-ddordeb mewn bocsiu. Yn wir fedra' i yn fy myw weld fod y peth yn 'sport' o gwbl. Meddyliwch am roi dau ddyn cry' i wynebu ei gilydd mewn caethiwed cyfyng sgwâr bocsiu. Bwriad y naill yw taro'r llall yn anymwybodol, ei frifo, ei falu, - ie, popeth ond ei ladd. Popeth ond ei ladd? - Tybed? Yn ystod y mis fe gladdwyd

Johnny Owen. Fydech chi byth yn coelio wrth edrych ar ei gorff eiddil esgyrnog fod Johnny Owen yn un o oreuon y byd am focsio. Y gnod a ddylai ein hysgwyl i gyd yw'r ffaith fod 'na 120 o focswyr yn America wedi cael eu lladd yn y gêm hon a elwir yn 'sport' yn ystod yr ugain mlynedd diwetha'. Gwneud popeth ond ei ladd ddywedais i!

I un fel fi na wŷr o fawr ddim am ganu, profiad hyfryd oedd cael treulio deuddeg awr yn awyrgylch Gŵyl Gerdd Dant Cymru, a mwynhau pob munud o'r Wyl. Dyma'r unig fath o ganu y bydda' i'n cael gwir flas arno, a'r rheswm am hynny yw fod perthynas agos rhwng canu gyda'r tannau ag adrodd reit siŵr.

Cafwyd gwledd yn Ninbych eleni. Oherwydd llwyddiant yr ŵyl flynyddol hon, mae problemau yn wynebu'r swyddogion - sef cael neuaddau addas mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru i'w chynnal o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Wyl Gerdd Dant, fel yr Eisteddfodau Cenedlaethol yn ŵyl symudol. Methodd nifer â chael mynediad i Neuadd y Dref, Dinbych, ac 'roedd y neuadd yn beryglus o orlawn. Problem arall oedd cludo telynu i fyny ac i lawr grisiau culion troellog. Gyda llaw, a gaf i fentro gofyn, a oes rhaid cael cymaint o delynu yn yr ŵyl? Ys gwn i, a fyddai tua hanner dwsin yn ddigonol? Mi fyddai'n achosi andros o drafferth petai pob cyfeilydd yn mynnu mynd â'i biano ei hun i bob 'Steddod'.

Bu Nain yn yr Wyl Gerdd Dant hefyd. Dynas nobl a 'steddai wrth ei hochor yn deud wrthi "Tydi'n orlawn yma 'dudwch - mi fyddai'n sobor petai tân yn torri allan yma!"

"Byddai," medda' Nain, "ond mi fydda 'na ganu efo'r tana' o ddfifri yma wedyn."

Ydy mae meddwl Nain yn ifanc iawn o hyd.

Hwyl ichi  
Selwyn

### CYSTADLEUAETH MIS TACHWEDD

Siomedig iawn fu'r ymateb i lun y ci yn gyrru'r Land-ROVER (dyna'i enw!) o ran nifer y cystadleuwyr a safon y cynigion. Felly, drwg gan y beirniad ghoeddi na ellir dyfarnu'r wobwr o gan punt(!) yn llawn y tro hwn. Ci-aidd, te!

Beth bynnag, gan fod y 'Dolig yn nesáu, byddwn yn anfon rhan o'r wobwr i Mr Arthur V. Jones, Maes Gerddi, Tan y Coed am ei bennawd: "Wel, mae 'na streic' does?"



# TRADDODIAD ACHOEL

gan 'Yr Hen Dderwydd'

## Y GWYLIAU

**MAE dathlu'r gwyliau Nadolig wedi bod yn ddefod gyffredin drwy Ewrop gyfan ers canrifoedd. Sylwodd dyn cyntefig fod y nosweithiau'n byrhau wedi heuldro'r gaeaf (winter solstice), a rhoddwyd arwyddocâd crefyddol i'r newid hwn, o bosibl yn ymwneud ag addoli'r haul. Roedd addewid o wanwyn ar y gorwel, a'r gobaith am ail-enedigaeth Natur. Dyma gadarnhad fod diwedd y gaeaf - er rai misoedd i ffwrdd - ar ddod.**

Yn Rhufain baganaidd, dyma gyfnod Saturnalia pan roddai'r bobl anrhegion i'w gilydd. Dyma Wyl y Goleuni pan oleuid canhwylau a thanio coelcerthi. Yn naturiol, pan fabwysiadwyd Cristnogaeth, rhoddwyd ystyr newydd i'r hen Wyl baganaidd, a'i chynnal i ddathlu genedigaeth Crist - Goleuni'r Byd.

Ar un cyfnod roedd Gŵyl Calan yn bwysicach i'r Cymry na Gŵyl y Nadolig. Pwysigrwydd Dydd Nadolig oedd mai dyma ddechrau cyfnod y "Gwyliau" (cyfnod o dair wythnos yn ôl rhai adroddiadau), pan gâi gwaith y fferm orffwys. Fel sumbol o hyn, câi'r aradr ei chario i'r tŷ a'i gadw dan ffwrdd y gegin.

Dethlid dydd Nadolig â chinio o wŷydd, cig eidion ac yn y blaen, yn ffermydd mwyaf pob ardal. Yna, am y gweddill o'r gwyliau, byddai partion yn crwydro o fferm i fferm i yfed cwrw. Ond byddai'r aradr bob tro yn cael ei gwylchu er mwyn atgoffa pawb fod rhaid ailddechrau ar waith y fferm ar ôl y Gwyliau. Roedd hi'n amlwg felly, fod tymor y Nadolig yn llawer pwysicach na diwrnod Nadolig.

Mewn llawer rhan o Gymru, y digwyddiad pwysicaf ar y Nadolig oedd gwasanaeth y Plygain. Fe'i cynhelid rhwng 3.00 a 6.00 o'r gloch y bore, a byddai'r bobl ifanc yn aros i fyny drwy'r nos i wneud cyflaith, addurno'r tŷ â chelyn ac uchelwydd, dawnsio a chanu i gyfeiliant telyn a phib, neu grwydro o amgylch y plwyf gyda fflaglau tân. Byddai'r arfer yn amrywio o ardal i ardal. Erbyn amser cychwyn gwasanaeth y Plygain, byddai ffermwyr yr ardal a'u teuluoedd wedi cyrraedd eglwys y plwyf, pob un yn cario cannyll. Roedd y canhwylau hyn yn sumbol unwaith eto, o eni Crist - Goleuni'r Byd.

Ffurf ar wasanaeth boreol wedi ei gwtogi oedd y Plygain, yn cael ei ddilyn gan ganu carolau. Byddai'r rheithor bob amser yn ddoeth iawn i gadw'r bregeth yn fer iawn, neu beidio â phregethu o gwbl! Byddai llawer o'r beirdd lleol yn sgwennu geiriau i garolau newydd, a'u canu ar *ganeuon poblogaidd* y cyfnod. Dyma ran o un ohonynt gan John Hughes o Gaernarfon a gyfansoddwyd tua 1770:

"Mae yn iawn i ninna o'n calonna

Gyda ein genau roi iti gân,  
Yn enwedig ddydd Nadolig  
Bendigeid galennig glân.  
Dyma'r noson, o annwyl lesu,  
Inni ganu mawl di-gudd,  
Clod, gogoniant, yn ddisieibiant,  
A mawr foliant i ti a fydd."

Yn dilyn gwasanaeth y Plygain, byddai gweddill y diwrnod yn cael ei lenwi â difyrwch. Mewn rhai plwyfi, roedd gêm bêl-droed yn cael ei chwarae; heb reolau o gwbl wrth gwrs; mewn ardaloedd eraill, hela oedd trefn y dydd, un ai hela cwingod neu hela gwiwerod. Gwelir felly, mai gŵyl gymdeithasol oedd y Nadolig yn hytrach na gŵyl grefyddol, a pharhaodd yr ŵyl fwy neu lai ar y patrwm hwn hyd oes Victoria.

Newidiwyd Gŵyl y Nadolig yn gyfan gwbl bron yn ystod oes Victoria - o fod yn ŵyl gymdeithasol i ardal gyfan, i fod yn ŵyl deuluol, breifat. Yn sgil y newid hwn, diflannodd llawer o'r hen draddodiadau cymdeithasol a daeth eraill i'w disodli - y goeden a'r cerdyn Nadolig. Y math o olygfa a ddarlunid ar y cardiau cynnar oedd Robin Goch, Iorwg a Chelyn, lluniau crefyddol, ac eira. Mae'r golygfeydd hyn o wlad dan gnwd o eira wedi ein camarwain i greu mai dyma'r math o Nadolig oedd i'w gael ers talwm - darlun cwbl anghywir o'r Nadolig gynt!

Mae Nadolig heddiw yn wahanol iawn i'r math o Nadolig yr oedd ein cyndeidiau'n ei ddathlu. Er bod prysurdeb yn rhan annatod o'r ŵyl, roedd ein cyn-deidiau'n llawer callach na ni. Tra byddwn ni heddiw yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer yr Ŵyl; roedd ein cyndeidiau yn cadw eu holl ynni i ddathlu'r Ŵyl.

Y drasiedi fwyaf yw fod cymaint o bobl wedi anghofio am hen draddodiadau'r Plygain, yr hela, y gwneud cyflaith, y gemau a'r cymdeithasu, ac wedi dod i greu mewn gŵyl gardbord cerdyn Nadolig o eira a dathlu preifat.

x x x  
Plygain. Yr hen ffurf oedd plygain neu plygaint, a chredir iddo ddod o'r geiriau Lladin "pulli cantus" (caniad y ceiliog). Ei ystyr felly oedd gwasanaeth a gynhelid yn gynnar iawn yn y bore bach.

# GOFALU AM BLANT (1)

## DEDDF

SYNDOD i lawer yw deall, fod gan y Cyngor Sir, trwy eu hadran Gwasanaethau Cymdeithasol, gyfrifoldebau eang, yn ymwneud â lles a budd plant a phobl ifanc. Nid sôn yr ydw i, am y cyfrifoldeb i sicrhau addysg safonol, neu ddarparu clybiau ieuencid, neu drefnu cerddorfa sirol, ond cyfeirio at y ddarpariaeth gymhleth sydd yn anelu at, yn gyntaf, ddiogelu buddiannau a hawliau plant, ac yn ail, cynorthwyo teuluoedd sydd mewn anawsterau, yn enwedig felly, pan fo'r problemau hynny yn effeithio ar fywydau plant.

Prif gyfrifoldeb y Sir, trwy ei gweithwyr cymdeithasol, yw derbyn plant i'w gofal pan ymddengys fod hynny yn angenrheidiol ac anorod. Gosodwyr telerau arbennig yn awdurdodi derbyn plant i ofal, mewn sawl deddf, ac effaith gweithrediad o'r fath, yw trosglwyddo i'r Sir, bron yn gyfan gwbl hawliau a chyfrifoldebau y rhieni, am gyfnod arhosiad y plentyn mewn gofal.

Mae'r datganiad olaf yna efallai, yn cyfleu proses oer a dideimlad, ond wrth gwrs, amgylchiadau eithafol, sydd gan amlaf yn penderfynu gweithrediad dan y ddeddf; ac ar y gweithwyr cymdeithasol mae'r cyfrifoldeb o sicrhau nad yw'r broses yn fygythiol i rieni nad i'r plant, na chwaith yn gadael creithiau ar deimladau.

Gall plentyn ddod i ofal yn wirfoddol, neu trwy orchymyn llys, ac fel y gellid disgwyl mae'r amgylchiadau yn wahanol yn y ddau achlysur.

Fel arfer, amgylchiadau personol neu deuluol sydd yn gorfodi rhiant i ofyn i'r Sir dderbyn eu plant i ofal yn wirfoddol. Cam anodd a phoenus i bawb, ond yn rhy aml nid oes dewis. Salwch y fam yn amharu ar ei gallu i ofalu, a methiant y tad i gynnal yr aelwyd. Mam ddi-briod yn cyrraedd pen ei thennyn neu farwolaeth sydyn yn bygwth undod teulu. Gan amlaf, am dymor byr yn unig y gofynnir i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ofalu am y plant, a thrwy gydol eu harhosiad, gwneir pob ymdrech i gadw'r plant mewn cysylltiad â'u rhieni.

Weithiau, am wahanol resymau, cyll rhai plant gysylltiad gyda'r fam neu'r tad bron yn gyfan gwbl, ac yn yr achosion hyn disgyn y fantell gofal ar y Sir hyd nes y bydd y plentyn yn ddeunaw oed.

Pryd ceir gorchymyn lles yn awdurdodi'r Sir i gymryd gofal o blentyn, yna diweddgo i broses gyfreithiol a geir.

Yn fras mae dau amgylchiad pan roddir y cyfrifoldeb ar y Sir, yn gyntaf pryd mae'r plentyn wedi troseddu ac wedi torri'r gyfraith, ac yn ail pryd gellir dangos fod gofal y rhiant yn annigonol neu yn esgeulus, rhaid yn y naill achos fel y llall hefyd brofi fod y plentyn angen gofal a rheolaeth, na all ei dderbyn heblaw bod y llys yn gwneud gorchymyn gofal.

Effaith gorchymyn llys yw trosglwyddo'r gofal ar unwaith i'r Sir, hyd nes bo'r plentyn yn ddeunaw oed, neu hyd nes y bo'r llys yn newid y dyfarniad. Os yw'r rhieni am ryddhau y plentyn o ofal yna rhaid iddynt gyflwyno achos i'r llys.

I'r cyfeithwyr yn eich mysg Deddf Plant 1948 sydd yn bennaf yn rheoli derbyn plentyn i ofal dan wirfodd, a Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969 sydd yn bennaf gyfrifol am y gorchymynion llys.

Yn y rhifyn hwn a'r ddau nesaf, byddwn yn cyhoeddi erthyglau sy'n amlinellu gwaith yr Adran ynglŷn â darparu gofal i blant digartref. - Gol.

## YR UN HEN BROBLEM

Dyma ddyfyniad o'r 'Cymru Coch' 1906:—

Ein hangen mawr yw ystafell i gynnal rhyw fil neu bymtheg cant o bobl, oblegid y mae yr un bresennol yn anghyfleus i gynnal cyfarfodydd, heblaw ei bod yn anghyfaddas. Dylai fod yn gyfryw y gellid cynnal y Llyfrgell Rydd ynddi, a phwyllgorau y Cyngor Plwy, ac eraill.

— ie am bentref Llanberis mae'n sôn!


## GALW BRAGWYR LLANRUG

Mae llawer o bobl yn Llanrug â diddordeb mewn gwneud gwin cartref neu gwrw cartref. Mae nifer o bobl eisoes wedi dangos diddordeb mewn sefydlu Cymdeithas Gwin a Chwrw Cartref. Os ydych eisoes yn gwneud eich gwin neu eich cwrw eich hun, neu os oes gennych

ddiddordeb mewn dechrau, yna dowch i gysylltiad â Mr R. Jones, 5 Talybont, Llanrug. Rhif ffôn: Caernarfon 4838.

Os ceir digon o bobli ddangos diddordeb, yna bwriedir galw cyfarfod cyhoeddus i sefydlu cymdeithas o'r fath yn Llanrug.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD  
I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON  
LLANRUG

(ERIC MORRIS)  
Ffôn: Caernarfon 5175  
neu Bangor 51981



# WAUNFAWR

**GENEDIGAETH** - Llongyfarchiadau i Gwynedd a Pat Parry, Bron Llywelyn ar enedigaeth mab - Derfel Rhys.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** - Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Tachwedd 6 gyda Mrs C.A. Jones yn llywyddu. Rhoddodd longyfarchiadau i Mrs Peggy Jones ar enedigaeth wŷr bach a chyhoeddodd fod y cinio Nadolig i'w gynnal yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis nos lau, Rhagfyr 16.

Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Mrs Alice Johnstone o Gyngor yr Hydref a gynhaliwyd yn Aberconwy. Darllenwyd adroddiad y trysorydd gan Mrs Nesfield, ac adroddiad yr ysgrifennydd gan Mrs Peggy Jones. Rhoddodd y llywydd ei haraith ac aeth ymlaen i groesawu Mrs Wigley, trefnydd gwirfoddol y sir. Diolchodd Mrs Overy i Mrs Wigley ac i'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y pwyllgor am y flwyddyn nesaf fydd Mrs Catherine Jones, Llywydd; Mrs Katie Jones, Ysgrifennydd; Mrs Buddug Rowlands, Trysorydd; Mrs Morfa Evans, Mrs Peggy Jones, Mrs Nesfield, Mrs Betty Griffith, Mrs Doris Roberts, Mrs Overy, Mrs Alice Johnstone a Mrs Missen. Rhoddwyd y blodau ar fwrdd y llywydd gan Mrs Overy. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Rhagfyr 4 pan fydd Mrs Rosanne Hughes yn rhoi Arddangosfa Nadolig.

**YN YR YSBYTY** - Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs Helen Jones, 7 Dôl Erddi a Mr David Davies, Nant y Mynydd, sydd yn yr ysbty.

Dymunwn hefyd wellhad buan i Mrs Hughes, Gwastadfaes a gafodd anffawd i'w choes.

Cyfarfu Alan Griffith, 13 Tref Eilian â damwain tra'n dilyn ei waith yn y Goedwigaeth. Da deall ei fod yntau'n gwella'n foddhaol.

**ADREF O'R YSBYTY** - Croeso adref i Nan Wyn Jones, Tan y Fron a Mrs Glyn Williams, 17 Tref Eilian.

**PROFEDIGAETH** - Cydymdeimlir â Mrs Ray Hughes, Manchester House ar goll ei mam, Mrs Th. Evans a fu farw'n ddiweddar yn 97 mlwydd oed. Cydymdeimlir hefyd â Mrs K.M. Jones, Gorwel ar goll ei thad.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr Edgar Parry, brodor o'r Waunfawr, ac un o lawfeddygon blaenllaw Lerpwl, ar gael ei ethol yn llywydd y 'Liverpool Medical Institution' un o'r sefydliadau meddygol enwocaf ym Mhrydain.

**RAS SGWÂR** - Llongyfarchiadau i Haydn Jones, Rhandir Mwyn a Rhodri Prys Jones ar eu perfformiad canmoladwy ar y rhaglen deledu uchod. Hwyl oedd y tîm buddugol ar ddiwedd y cwis, a daeth y ddau adref gyda phocedi llawn iawn.

**N.S.P.C.C.** - Casglwyd £35.69 o dŷ i dŷ tuag at yr achos uchod. Y casgyllyddion oedd Miss Kim Jones, Mrs C. Jones, Mrs H.M. Evans a Mrs B. Rowlands.

**YR YSGOL** - Ddechrau'r mis derbyniodd yr ysgol ddarlun olew o waith Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian. Cyflwynwyd y darlun ar ran Clwb Gwyrfaï gan Mrs Idris Jones a'r Parch Trefor Jones. Gan fod perthynas agos rhwng y Clwb a'r ysgol teimlai'r aelodau yr hoffent gyflwyno anrheg i'r ysgol, ac ar awgrymiad y prifathro, penderfynwyd cael darlun olew i'w osod yng nghyntedd newydd yr ysgol. Cyfrannodd pob aelod o'r Clwb at y darlun. Dymuna'r prifathro ddiolch yn gynnes iawn i'r Clwb am eu haelioni.

**YR AELWYD** - Bydd yr Aelwyd yn

mynd o amgylch y pentref i ganu carolau nos Fawrth, Rhagfyr 9. Croeso i unrhyw un ymuno - ymgynnull wrth Neuadd yr Eglwys am 7.30.

**CLWB GWYRFAI** - Bydd cinio Nadolig y Clwb ar Ragfyr 4 ym Mron Eryri Llanberis. Y gŵr gwadd fydd Trebor Edwards.

**MERCHED Y WAWR** - Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref nos lau y 30ain yn Neuadd yr Eglwys pryd y cafwyd noson ddiwyf iawn yng nghwmni Madam Sera. Bu'n trafod gwahanol agweddau o'r deuddeg arwydd astrolegol - mae'n debyg ein bod yn gwybod tipyn mwy am eu dylanwad ar ein natur ar ddiwedd y noson.

Y llywydd oedd Mrs Rhian Ellis. Diolchwyd gan Mrs Irene Roberts. Mrs Nellie Williams, Betws Garmon a enillodd y raffl - fe'i rhoddwyd gan Mrs Carys Owen. Gosodwyd cystadleuaeth ar y testun 'Calan Gaeaf' y mis hwn - fe'i henillwyd gan Mrs Brenda Jones, Betws Garmon. Fe wnaethpwyd casgliad o £7.50 tuag at yr Henoed yng Ngwynedd yn ystod y cyfarfod. Yn gofalu am y te roedd Mrs Beryl Jones, Mrs Carys Owen a Mrs Llinos Cadwaladr.

**NEUADD Y PENTREF** - Gyda mwyafrif llethol penderfynodd cyfarfod cyhoeddus yn y Waunfawr roi cefnogaeth i bwyllgor arbennig i fynd ymlaen â'r gwaith o adeiladu canolfan gymdeithasol i'r ardal. Bydd y gwaith yn amodol ar grantiau yn dod i law oddi wrth y Swyddfa Gymreig a'r Cyngor Sir. Ond teimlad y cyfarfod oedd y dylid ceisio adeiladu canolfan cyn gynted â phosib.

Dywedodd Eurig Wyn, cadeirydd y cyfarfod a chadeirydd y pwyllgor fu'n astudio'r posibilïadau, ei fod yn ffyddiog y byddai'r ardal gyfan yn rhoi eu pwysau y tu ôl i'r ymgyrch i sicrhau canolfan, a'i fod hefyd wedi cael addewidion lu gan nifer o grefftwyr o'r ardal a fyddai'n fodlon rhoi eu llafur am ddim. Ar y funud meddai, roedd yr ieuencid yn treulio eu nosweithiau yn y cysgodfeydd bysiau a doedd hynny ddim yn ddigon da. Dywedodd fod yr ieuencid a'r oedolion yn haeddu gwell cyfleusterau cymdeithasol nad oedd yn bod yn y pentref ar y funud. Amlinellodd y trysorydd, Edgar Owen, y gwahanol gynlluniau oedd gan y pwyllgor dan sylw i godi'r arian angenrheidiol: Clwb Cant; cyfraniadau gan gymdeithasau a chlybiau'r ardal; parti noson lawen o'r pentre i ymweld â phentrefi eraill i godi arian; stondin o'r pentref i ymweld â charnifalau a digwyddiadau eraill yn ardal Caernarfon; ras feics yr Wyddfa a 'tote' pêl-droed. Roedd y pwyllgor yn awyddus i glywed oddi wrth unrhyw un a chanddynt syniadau da am godi arian. Byddai'r pwyllgor hefyd yn gofyn am fenthyciadau di-log i gynnal y gronfa dros gyfnod o amser.

Roedd Mrs Edgar Owen yn bendant o'r farn fod codi'r 25% a oedd ei angen yn gwbl bosibl. Dywedodd Gwilym William ac Emlyn Williams, a fyddai'n helpu gyda'r adeiladu, y byddai'n syniad da i godi neuadd ddigon mawr i chwarae badminton, er mwyn sicrhau cefnogaeth yr ieuencid gyda'r gwaith adeiladu a chodi arian. Dywedodd Eurig Wyn hefyd ei fod yn ddiolchgar dros ben am gymorth a oedd wedi ei gynnig gan adeiladwyr eraill yn yr ardal, - D. Rowlands, Goronwy Pierce, Leslie Jones a Dafydd Pritchard. Roedd y pwyllgor yn croesawu unrhyw un a chanddo allu arbennig yn y maes adeiladu i ddod i gysylltiad â'r pwyllgor. Eglurwyd cynllun y neuadd gan

Gareth Roberts. Byddai dwy ran i'r ganolfan, - neuadd i ddal cant neu fwy o bobl, uned lai ar gyfer yr ieuencid yn bennaf, a chegin, stordy a tholeidau rhwng y ddwy ran ar gyfer yr adeilad cyfan.

Dywedodd y cadeirydd mai'r dasg nesaf fyddai ffurfio dau bwyllgor, - pwyllgor codi arian, a phwyllgor adeiladu, ac y dylai'r rhain gyfarfod cyn gynted ag sy'n bosib. Byddai'r pwyllgor llawn nesaf yn Y Frenni nos Lun, Tachwedd 24 am 7.30. Soniodd Mr Peter Marston am y posibilrwydd diddorol y gellid gwneud cais am arian o gronfa STEP i helpu gyda'r gwaith adeiladu.

Cafodd y pwyllgor llywio ei ailethol a rhoddwyd iddo'r gallu i gyfethol unrhyw un a fyn. Aelodau'r pwyllgor yw: Eurig Wyn, cadeirydd; Gareth Roberts, ysgrifennydd; Edgar Owen, trysorydd; Grace Dawson; Alys Johnson; Steve Jones; Dic Jones; Bob Eagleston; Clifford Parry ac Alan Gruffydd. Teimlad y cyfarfod oedd y dylid cynnwys Betws Garmon a Cheunant fel dwy ardal arall gyfagos a ddylai elwa o'r cynllun.

**YR EISTEDDFOD ARDAL** - Cynhaliwyd Eisteddfod yr Ardal ddydd Sadwrn, Tachwedd 8 yng nghapel Croesywaun. Dyma'r canlyniadau;

**CANU** - dan 5: 1. Elin, 2. Anwen a Meilir; 5-7: 1. Ella, 2. Osian, 3. Bethan. 7-9: 1. Karen, 2. Telor, 3. Euros. **ADRODD** - dan 5: 1. Elin, 2. Meilir a Delyth, 3. Rachel, Anwen a Ceirion. 5-7: 1. ella, 2. Bethan a Rhys, 3. Nia. **CÂN ACTOL** dan 9: 1. Ysgol Feithrin a Pobl Brysur. **PARTI RECORDERS** dan 9: 1. Parti Karen. Parti unsain dan 9: 1. Parti Meilir, 2. Parti Martin. **GWAITH LLAW** dan 9: 1. Dylan, 2. Rhys a Rhodri, 3. Alaw. **CANU PIANO** dan 11: 1. Iwan, 2. Karen a Nia. **ARLUNIO** dan 7: 1. Neil, 2. Ella, 3. Gerallt, 4. Rhys ac Alaw. dan 9: 1. Aeron, 2. Tina, 3. David. dan 11: 1. Steven, 2. Sian, 3. Jason, 4. Sian Lloyd a Helen Wyn. **GWAITH LLAW** dan 11: 1. Sandra, 2. Karen a Sian Lloyd, 3. Helen Wyn, dan 13: 1. Penny. **LLÊN** dan 9: 1. Telor, 2. Gwenan, 3. Michael. 9-11: 1. Iwan, 2. Joanne, Elliw a Helen, 3. Karen, Sian a Sandra. **CANU** 9-11: 1. Iwan ac Elliw. 11-13: Huw. **PARTI RECORDERS** dan 11: 1. Parti Elliw. **ADRODD** 9-11: 1. Nan Wyn a Sandra, 2. Elliw. 11-13: 1. Llion, 2. Huw. 13-15: 1. Gwyneth, 2. Sian, 15-18: Ceri. **UNAWD OFFERYN CERDD**: 1. Simon. **PIANO** dan 14: 1. Penny, 2. Huw, 3. Kevin ac Alan. **DEUAWD PIANO** dan 15: 1. Penny a Sian, 2. Kevin a Karen. **OFFERYN CHWYTH** dan 18: 1. Kevin, 2. Llion. **ARLUNIO** dan 15: 1. Kevin, 2. Gwyneth, 3. Llion. **UNAWD CERDD DANT** dan 14: 1. Elliw. **LLÊN**: 1. Llion, 2. Huw, 3. Penny. **COGINIO** dan 15: 1. Iona. agored: 1. Mrs Beryl Lloyd Jones, 2. Mrs Luned Roberts. **GWAITH LLAW** dan 18: 1. Miss Ann Dawson, agored: 1. Mrs Greta Hughes, 2. Mrs Iris Owen, Mrs Nelma Pritchard, Mrs Jane Roberts. **COLLAGE**: 1. Sian Williams 2. Valerie Griffiths ac Ann Dawson. **ADRODD** dros 25: 1. Eurig Wyn, 2. Myra Turner. **CÔR ADRODD**: 1. Parti Llinos, 2. Parti Irene, 3. Y Cŵn Coch. **CÂN WERIN** dros 25: 1. Alun, 2. Margaret a Bob. **UNAWD GYMRAEG** agored: 1. Margaret, 2. Alun, 3. Wmffra. **CÂN DDISGRIFIADOL**: 1. Parti Dewi. **DEUAWD** agored: 1. Alun ac Wmffra, 2. Dafydd ac Eurig. **CANU** Emyr: 1. Gwyn, 2. Alun, 3. Wmffra. **ADRODD** darn heb ei atalnodi: 1. Gareth, 2. Ceri. **DARLLEN** darn o lyfr: 1. Irene, 2. Carys a Cadi, 3. Margaret. **STORI FER**: 1. John, 2. Irene a Marion. **LLYTHYR**: 1. Irene. **ARLUNIO** agored: 1. Mrs J. Benham, 2 a 3. Mr Gwilym Hughes. **CERDD RYDD** neu **GAETH**: 1. Olwen, 2. John. **GRŴP CÂN BOP**: 1. Hogia Ni. **LLINELL GOLL**: 1. Mr D. Lloyd Jones, 2. Mrs Catherine Jones. **CÔR**: 1. Côr Wyn, 2.

Côr Rob.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i Mr Richard Morris (cerdd), Mr Hywel Parry (adrodd a llên), Mr W. Eames (arlunio), Mr Rol Williams, (llinell goll), Mrs Linda Websel (coginio a gwaith llaw) am feirniadu. I Mrs M. Lloyd Jones a Mr John Huws am lywyddu ac i Miss I. Eames, a Mr B. Evans am gyfeilio. Hefyd i Mrs Marion Iwan, Mrs Margaret Owen, Dafydd Iwan a Mr Eurig Wyn am arwain y cyfarfodydd. Yn ogystal dymunwn ddiolch am yr holl waith a wnaethpwyd y tu ôl i'r llenni, a oedd yn hanfodol i lwyddiant yr eisteddfod.

**YSGOL FEITHRIN** - Bore Paned a Mins Peis yn festri Croesywaun dydd lau, Rhagfyr 11 am 10.00 o'r gloch. Stodinau ac adloniant gan y Plant bach. 25c.

**FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU** - Cynhelir y ffair nos Wener, Rhagfyr 5 am 6.30 yn Neuadd yr Eglwys Waunfawr. Bydd croeso cynnes i bawb.

## CYN-GOGYDDES YN PRIODI



Ar Hydref 25 yng Nghapel Seilo Caernarfon priodwyd Miss Dilys Parry, cyn gogyddes Ysgol Brynrefail a Mr Elwyn Owen, Betws Gwerfil Goch. Dymuna staff y gegin ac athrawon yr ysgol bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

## NANT PERIS

**TYSTYSGRIF** - Llongyfarchiadau i Helen Mai, Tŷ Isaf ar dderbyn tystysgrif wedi ei harwyddo gan Mr Tecwyn Ellis y Cyfarwyddwr Addysg am fod yn bresennol yn Ysgol Dolbadarn yn ddi-fwlch am flwyddyn.

**GWAELEDD** - Drwg gennym ddeall fod Morris Wyn Williams, Terfyn yn yr ysbty. Ein cofion ato a dymuniadau am wellhad llwyr a buan.

**YMDDEOLIAD** - Dymuniadau da i Gwilym Searell Jones ar ei ymddeoliad. Mae Gwilym wedi rhoi oes o wasanaeth fel swyddog yn Chwarel Dinorwig ac yn ddiweddar yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda. Hir oes i fwynhau tipyn o seurgodol.

**YN YR YSBYTY** - Dymunir gwellhad buan a llwyr i Mrs Rhiannon Roberts, 6 Bro Glyder sydd wedi cael triniaeth lawfeddygol yn yr ysbty ym Mangor.

**LLONGYFARCHIADAU** i Emyr ac Esther Searall Jones ar enedigaeth mab, wŷr i Mr a Mrs Gwilym Searall Jones, Gwynant.



CYFARCHION Y TYMOR  
oddi wrth

# E.&A. Hughes

SIOP BAPUR NEWYDD

## DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 483



Cyfarchion  
Nadolig o  
**Ddeiniolen**  
a  
**DINORWIG**



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth

# THOMAS & JONES

## Gwydrwyr

GWEITHDY A STORDY, CLWT-Y-BONT  
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 486 neu 680

GWYDR - GWYDRO - GWYDR DWBWL  
DRYSAU A FFENESTRI ALIWMINIWM  
- DRYSAU PATIO  
*Amcangyfrifon rhad ac am ddim*

NADOLIG LLAWEN

A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth

# JACOB A. JAMES

## Regent House

## DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 461



*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda  
i chwi oll oddi wrth*



## BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS  
Dosberthir drwy'r fro

*Nadolig Llawen  
a Blwyddyn Newydd  
Dda oddi wrth*

## BOB A RUTH PHILLIPS WELLINGTON INN

### Deiniolen

Ffôn : Llanberis 227



Cwrw blasus - chwerw ar  
ei orau

CYFARCHION  
Y TYMOR

A'R  
DYMUNIADAU GORAU  
AM 1981  
oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

# Tafarn Datws Arjonia

## DEINIOLEN



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
oddi wrth

# Y CO-OP

## Deiniolen

Ffôn : LLANBERIS 214

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH  
TRWY GYDOL 1980



Am ddewis da o  
anrhegion Nadolig  
i bawb o'r teulu



## SIOP HELEN DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 386



NADOLIG LLAWEN  
a BLWYDDYN NEWYDD DDA  
i chi oll





Nadolig Llawn  
a Blwyddyn Newydd Dda  
oddi wrth  
**GONTRACTWYR LLORIAU**



# CUMBERLAND

Manchester House, Stryd Fawr

**DEINIOLEN** Ffôn Llanberis 536  
(Fin nos — Beddgelert 301)

Yr arbenigwyr ar:  
Loriau Bloc, Leino, Rwber, Thermo-plastig,  
Corc, Carpedi, Ail-lorio

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA  
oddi wrth  
bawb yn

# ARFON GARAGE

DEINIOLEN

(Ffôn: Llanberis 287)

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn



NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD DDA  
I BAWB  
oddi wrth  
CLIFFORD, DIANA A NIA

# Swyddfa'r Post DEINIOLEN

Ffôn : LLANBERIS 283

Bysus pleser a bysus mini ar log  
Bysus 12-52 sedd ar gyfer pob achlysur



Telerau cystadleuol  
Gwaith contract  
Gwasanaeth tacsï lleol



# IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd, Gallt-y-foel

DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 484

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA  
i chwi oll

Cefnogwch  
ddiwydiant bro —  
rhowch anrheg  
Nadolig lleol  
eleni

# CROCHENDY BRON Y FOEL DINORWIG

Ffôn: Llanberis 405

Nadolig Llawn a Blwyddyn  
Newydd Dda i bawb



DYMUNA  
CLARICE, ERYL  
a'r STAFF

# BULL INN

DEINIOLEN  
NADOLIG LLAWEN  
A  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA

i gwsmeriaid a  
chyfeillion oll

Cyfarchion y tymor  
oddi wrth



OSMOND  
W. SHAW

Peiriannydd  
Radio a Theledu  
& Gwasanaeth Awdio  
BWLCH UCHAF  
DEINIOLEN

Ffôn Llanberis 545  
Gwasanaeth 'run diwrnod  
os ffoniwch  
cyn 10 o'r gloch

NADOLIG LLAWEN a  
BLWYDDYN NEWYDD  
DDA i chwi oll  
oddi wrth

# W.H.Jones

CIGYDD



WAENGOCH  
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 638

## TAN Y COED

LLONGYFARCHIADAU — Mr a Mrs Gardiner, Becws Bryngwyn ar enedigaeth eu merch — Kim Marie — ddydd Gwener Hydref 22 yn Ysbyty Dewi Sant Bangor. Llongyfarchiadau hefyd i Teresa, Christopher, Ruth (sydd yn cael ei phen-blwydd yr un diwrnod â Kim), Andrew a Siôn ar gael chwaer fach.

Dymuniadau gorau'r ardal i'r teulu oll.

CROESO ADRE a dymuniadau da'r ardal i Mrs Nancy Morris, Awelfryn, ddaeth adre ddydd Llun Tachwedd 17 wedi cyfnod o un mis ar ddeg mewn ysbytai — Ysbyty'r Royal Infirmary ac Ysbyty Eryri. Boed i Mrs Morris gael adferiad iechyd buan.

MARW — Dydd Iau, Tachwedd 13 yn ddisymwth bu farw Mr Vincent Shilton, Ayr, mab Mrs E. Shilton, Tan-y-coed Cottage. Yr oedd Mr Shilton yn y bwthyn mor ddiweddar â thair wythnos yn ôl. Chwith ei golli o'r cylch.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'i briod, ei fam oeddrannus, ei ddwy ferch a'i ddwy chwaer a'i deulu oll.

CYDYMDEIMLIR hefyd â Mr Owen W. Thomas, 1 Tai Bryngwyn a Mr William E. Thomas, Bronant yn eu profedigaeth sydyn o golli eu brawd yng nghyfraith, Mr Duncan McNaughton, ym Manceinion, sef priod ei chwaer Mary Kate. Ein cofion a'n cydymdeimlad fel ardal â Mrs Mary K. McNaughton, a'r teulu oll.

YN RHIFYN TACHWEDD o'r 'Pentan', papur bro Dyffryn Conwy a'r Glannau, sonnir am lori yn cael ei defnyddio i gario arch mewn cynhebrwng.

Yr adeg oedd amser Hers Geffylau a'r broblem oedd mynd ar daith hir yr adeg hynny o Dan-y-coed i Ddwyran, Sir Fôn i gladdu gwrag oeddrannus, enedigol o Sir Fôn

Yr oedd y diweddar Mr Lewis J. Roberts, Minafon newydd brynu lori newydd a modur, y ddau yn Ford Model T, a'r lori hon ddefnyddiwyd yn lle hers-geffylau. Cofia awdur yr erthygl y lori yn mynd dros Bont Menai a gofyn "Tybed ai Nain oedd y gyntaf a'r olaf i groesi'r bont yn y ffordd hon?"

"Bu'r lori o gwmpas am lawer blwyddyn ar ôl hyn", meddai, "yn cario glo ond ar brynhawn Mercher a Gwener a thrwy'r Sadwrn rhoddid cysgod pwrpasol a seddau arni i gario pobl nôl a blaen i Gaernarfon."

Erthygl sy'n dwyn i gof trigolion hynaf y fro y gwasanaeth amhrisiadwy roes y diweddar Mr L.J. Roberts i'w ardal.

## YN EISIAU

Arweinydd i Seindorf Arian Deiniolen. Ceisiadau i fod i law yr ysgrifennydd, Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont, Deiniolen erbyn dydd Sadwrn, Rhagfyr 6.

Athrawes i Ysgol Feithrin Penisarwaun i ddechrau yn y Flwyddyn Newydd, (dau fore yr wythnos). Ceisiadau i Mrs M. Jones, Fanwylen, erbyn Rhagfyr 12 fan bellaf.

Teganau ail-law, rhai mawr a rhai bach yn addas i Ysgol Feithrin Penisarwaun. Hefyd hen garped mewn cyflwr gweddol. Mrs N. Roberts (Cadeirydd), Arwel, Pontrhythallt. Ffôn Llanberis 760.

Cadair Uchel, a 'Buggy' dwbwl. Ffôn Llanberis 760.



## RECORDIAU'R NADOLIG gan Iwan Roberts

MAE tymor y Nadolig yma unwaith eto â'i broblem flynyddol o ddyfalu pa anrhegion i brynu i'ch teuluoedd a'ch cyfeillion. Mae'r rhai callaf yn ein plith wedi hen orffen eu siopa Nadolig erbyn hyn, ond os ydych fel fi, rhyw ras funud olaf fydd hi eleni eto, fel pob blwyddyn arall. Os nad ydych wedi prynu eich anrhegion gallech gysidro prynu recordiau Cymraeg; mae rhywbeth i'w gael at ddant pawb.

Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod nifer o recordiau newydd yn y siopau ar hyn o bryd. Mae'n hen arfer gan y cwmnïau recordiau anelu cyfran go helaeth o'u cynnyrch at y farchnad Nadolig, ac nid yw eleni yn eithriad.

Mae rhyddhau record hir gan Edward H. Dafis bob amser yn ddigwyddiad o bwys ac mae eu record ddiweddaraf 'Plant y Fflam' newydd gyrraedd y siopau. Mae rhai o bobl ardal yr Eco wedi bod yn edrych ymlaen yn fwy eiddgar nag arfer am y record hon. 'Roedd y grŵp eisïau côr o blant i ganu ar brif gân y record, 'Y Tir Glas', a gwahoddwyd parti o Ysgol Dolbadarn, Llanberis i fynd i'r Stiwdio i recordio. Tynnwyd lluniau o un o'r plant, Jane Parri i'w ddefnyddio ar glawr y record. O gofio recordiau eraill Edward H., mae hon yn siŵr o fod yn record gwerth ei phrynu.

Grŵp arall sydd newydd ryddhau record hir yw Bando. Bu cryn ddisgwyl am y record hon wedi llwyddiant eu record sengl, Space Invaders, yn gynharach eleni. Prif leisydd y grŵp yw Caryl Parry-Jones cyn aelod o'r grwpiau 'Sidan' ac 'Inja Roc'. Mae i'w gweld y dyddiau hyn fel un o gyflwynwyr y rhaglen blant 'Bilidowcar' ar y teledu. Yn y grŵp hefyd mae Gareth a Rhys, cyn

aelodau o'r grŵp 'Hergest'. Enw'r record yw 'Hwyl ar y Mastiau'.

Braidd yn anarferol efallai yw gweld record fer gan Dafydd Iwan yn y siopau yr wythnos yma. Gwnaed nifer o recordiau hir gan Dafydd yn ddiweddar, ond dyma'r record fer gyntaf ganddo ers rhai blynyddoedd. Teimlai Dafydd, a Chwmni Sain, fod y gân Mag Thatcher, yn haeddu cael ei rhyddhau ar fyrder. Efallai fod rhai ohonoch wedi clywed Dafydd yn canu'r gân yma yn ei gyngherddau, ac 'rwy'n siŵr y cytunwch mai hon yw ei gân ddychanol orau er 'Carlo'.

Un record mae Huw Jones, cyfarwyddwr Cwmni Sain yn ffyddiog iawn o'i llwyddiant yw 'Un Dydd Ar Y Tro', gan Trebor Edwards. Mae Trebor Edwards yn un o artistiaid mwyaf poblogaidd Cymru erbyn hyn, yn llenwi neuaddau lle bynnag mae'n perfformio. Hon yw ei bumed record a'i drydedd record hir.


Nid rygbi yw gêm fwyaf poblogaidd Bro'r Eco ond er hynny anodd yw credu fod yma neb heb sylweddoli mai eleni yw blwyddyn dathlu Canmlwyddiant Undeb Rygbi Cymru. I gydnabod hyn rhyddhawyd dwy record gan Gwmni Sain. Bu'r cwmni i lawr ym Mharc yr

Arfau, Caerdydd ar achlysur 'Gala' agoriad swyddogol y dathlu, ym mhresenoldeb côr o 1,500 o leisiau. Buont yno hefyd yn ystod y gêm ddiweddar rhwng Cymru a Seland Newydd yn recordio'r canu cynulleidfaol cyn, ac yn ystod y gêm. Dewiswyd y goreuon o'r ddau recordiad yma ar gyfer y record, 'Gwlad, Gwlad'. Y record arall yw 'Cewri'r Crysau Cochion'. Ar y record yma ceir amrywiaeth o ddeunydd gan gynnwys sylwebaethau ar rai o gemau mawr y gorffennol, caneuon gan Ray Gravel a Dafydd Iwan, Bryan Owen yn adrodd 'Y Dyrfa' gan Cynan ac adroddiad hefyd gan Rachel Thomas.

'Rwy'n siŵr eich bod yn cofio'r record 'Canu Caernarfon', record yn adlewyrchu doniau ardal Caernarfon a ryddhawyd adeg Eisteddfod Caernarfon ym 1979. Mae record debyg, 'Doniau'r Fro' allan yn awr yn adlewyrchu doniau ardal Machynlleth, ardal Eisteddfod Genedlaethol 1981. Mae yna hefyd record 'Doniau Dyffryn Teifi' yn y siopau ar hyn o bryd, record o ddoniau ardal Eisteddfod yr Urdd 1981.

Dechreuais drwy sôn am un record o ddiddordeb arbennig i fro'r Eco ac mi orffennaf y mis yma drwy sôn am un arall. Yn ystod y dyddiau nesaf bydd record yn y siopau o'r enw 'Dewch i Ganu'. Record ydyw o ganeuon poblogaidd Cymraeg, caneuon a ddisgrifiwyd gan Sain fel "Caneuon sy'n cael eu canu bob amser mae criw o Gymry yn dod at ei gilydd". Rhai o'r artistiaid sy'n ymddangos ar y record yw Rosalind a Myrddin a Pharti Eryri, rhai o artistiaid enwocaf Bro'r Eco.

plant yfflam



EDWARD H


WIL  
a  
VAL GUY  
TREFLYN  
STORES  
BETHEL

Bwydydd, Melysion,  
Teganau a Dioddydd  
Y FELINHELI 670237

## WETTON & THOMAS

Ffôn: 53705

Cae Ffynnon, Bangor



CARPEDI

Gostyngiad sylweddol am arian parod  
Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd  
lle bo ansawdd yn cyfrif

LLENNI



Perchennog:  
Alun Glyn Jones

DEWIS DA  
PRISIAU TEG  
STAFF PROFIADOL

Dowch i'n gweld,  
mi gewch groeso  
mawr yn  
awyrgylch  
gartrefol y siop, a  
phob sylw gan  
Alun Glyn a'i staff.



# Dyddiadur y Mis

## RHAGFYR

1, Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. BETHEL: Noson Goffi dan nawdd Chwiorydd Capel Cysegr yn y Ffestri.

2, Mawrth. LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol - Sgwrs gan Mr David Whiteside Thomas.

4, Iau. CWM Y GLO: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00 - 'Byd Natur'. LLANRUG: Ffair Nadolig Chwiorydd Capel Mawr am 7.00. DEINIOLEN: Cymdeithas y Chwiorydd Capel Disgwylfa. WAUNFAWR: 1. Sefydliad y Merched - Arddangosfa Nadolig gan Mrs Roseanne Hughes. Cinio Nadolig Clwb Gwyrfaï yng Ngwesty Bron Eryri, Llanberis.

5, Gwener. WAUNFAWR - Ffair Nadolig Cangen Plaid Cymru yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. LLANRUG: Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty Bron Eryri, Llanberis.

6, Sadwrn. BRYNREFAIL - Y Clwb Ieuenctid yn ymweld â Chanolfan Glannau Clwyd.

8, Llun. LLANRUG: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos WEA yn yr Ysgol am 7.00. LLANBERIS: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

9, Mawrth. LLANRUG: Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty'r

Gwynedd, Llanberis. DINORWIG: Y Clwb Ieuenctid yn dathlu'r Nadolig gyda sglodion a chyw iâr ym Min y Don, Traeth Coch, Ynys Môn.

BETHEL: Clwb Bro Bethel. WAUNFAWR: Aelodau'r Aelwyd yn canu Carolau o amgylch y pentref. 10, Mercher. LLANBERIS: Clwb y Mamau - Bamix (Darparu bwyd). BRYNREFAIL: Swper Nadolig Clwb y Mamau yn Llety, Caeathro. BETHEL: Merched y Wawr - Bwffè ac Adloniant gan Glychau'r Grug.

11, Iau. DEINIOLEN: Parti Nadolig Plant yr Ysgol Feithrin. WAUNFAWR: Yr Ysgol Feithrin - Bore Paned a Mins Peis yn Ffestri Croesywaun am 10.00. Stondinau ac Adloniant gan y plant bach. Pris 25c.

12, Gwener. PENISARWAUN: Noson Wasael er budd Eisteddfod y Pentref yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. BRYNREFAIL: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Nglantraeth, Ynys Môn. LLANBERIS: 1. Te bach yr Henoed. 2. Cinio Nadolig Clwb y Mamau yng Ngwesty Fictoria, Porthaethwy. 3. Cinio Nadolig a Bingo Elusengar yng Ngwesty'r Gwynedd.

13, Sadwrn. PENISARWAUN: Swper Nadolig Clwb yr Heulwen yng Ngwesty Glantraeth, Ynys Môn.

15, Llun. LLANBERIS: Gyrfa Chwist Fawr yn y Padarn Lake am 7.30. Y noson dan nawdd y St John's Cadets.

16, Mawrth. WAUNFAWR: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.

17, Mercher LLANBERIS: Cinio Nadolig y Cwmni Drama yng Nghastell Cidwm.

18, Iau. BETHEL: Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty Bron Eryri, Llanberis.

19, Gwener. DEINIOLEN: Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru yn Llety, Caeathro.

20, Sadwrn. BRYNREFAIL: Parti Nadolig Clwb Pedwarugain yn

## AP GLASLYN

Gobeithio y gall un o ddarllenwyr yr Eco anfon llun John Owen, sef Ap Glaslyn i Mrs Angela Owen, Dorset, ond er i mi ymddiddori yn ei hanes, nid 'wy'n cofio gweld llun ohono. Cofiaf yn iawn, pan yn blentyn yn y Clegir, weld ei enw ar drawst yn ei hen gartref, Foty'r Awen.

Tybed a fuasai a ganlyn o ddi-ddordeb i Mrs Owen, neu rywun arall? Yn ddiweddar, cefais fenthyg hen lyfr Daearyddiaeth diddorol eithriadol, (argraffwyd 1816) gan Mr W.M. Jones, Maes Cadnant, Caernarfon, sydd â chysylltiadau teuluol â Chwm-y-glo. Tu fewn i'r clawr ac ar draws yr wyneb-ddalen, mae llythyr i bob golwg, uwch ei ben yr enw 'Pierce-Evans', ac oddi tano enw 'Ap Glaslyn'. O'i ddarllen, sylweddolais mai cerdd oedd hi, a chan ein bod yn gwybod yr

hoffai'r Ap farddoni, mae'n siŵr mai ef yw'r awdur. Deallaf gan Mr Jones, y bu gŵr o'r enw 'Pierce-Evans' yn byw yn y Clegir, gŵr a deithiodd lawer ar y byd, ac felly mae'r gân yn ffitio i'r dim. Dyma fel y gwelaf hi.

Pierce Evans

Do, gadewais mam yng Nghymru  
Hithau'n weddw dlawd a phrudd,  
Hwyliais inna' dros y tonnau  
A Fy nghalon ar Fy ngrudd.  
Ac â hyder cawn ddychwelyd  
Yn ddiogel draws y lli,  
Gyda dwylaw llawn neu weigion  
Eto'n ôl, O! ati hi.

Tramwy'r wlad tu draw i'r Werydd  
Llwyddiant a'm dilynodd i,  
Yno yr enillais gyfoeth,  
A thrwy gyfoeth, cefais fri.  
Gyda llawnder y dychwelais,  
Bryisiais adref at fy mam,  
I'w diddanu a'i chysuro,  
Ac amddiffyn mwy ei cham.

Wedi cyrraedd drws y bwthyn,  
Curo, curo wneuthum i,  
Yna chwiliais, ond yn ofer,  
Ni chawn ddim o'i hanes hi.  
Eis i'r fynwent yn hiraethus  
Ac at fedd fy nhad a'm brawd,  
Yno gwelwn feddrod newydd -  
Hwnnwn fedd fy mam dylawd.

Nis gall dyfroedd oer marwolaeth  
Ddiffodd mynwes sydd yn fflam,  
Nes bo'r bedd yn fedd i minnau  
Anrhydeddaf lwch fy mam.

Ap Glaslyn.

Mae lliw yr inc a'r farddoniaeth yn perthyn i'r cyfnod 'rwy'n siŵr. Cefais y fraint o gyfarfod merch Ap Glaslyn, a chofiw'n ni, blant Cymraeg olaf tyddynnod y Clegir, ei hanrheg a'i cherdd i'r 'Ysgoldy Bach' pan yn dathlu ei gant oed.

Gwyneth Chick

Neuadd Henllys, Ynys Môn. LLANBERIS: Bwffè Nadolig Pwyllgor Carnifal yng Ngwesty Bron Eryri.

21, Sul. DEINIOLEN: Y Cyngor Eglwys - Oedfa Garolau Undebol am 5.30 yng nghapel Ebenezer. Y casgliad tuag at Ysgol Pendalar.

25, Iau. Y Nadolig. DEINIOLEN: Gwasanaeth y Cymun yng Nghapel Disgwylfa am 9.30 y bore.

26, Gwener. LLANBERIS: Râs Bramiau dan nawdd y Pwyllgor Pêl-droed.

## DYDDIADAU I'W COFIO

### IONAWR

1. LLANRUG: Taith i'r Pantomeim 'Babes in the Woods'.

## PRYNWCH, BWYTEWCH A BYDDWCH LAWEN Y Nadolig HWN

**M**archnatewch yma  
**a**c ni  
**C**hewch  
**e**felychwr



**M**anteisiwch  
**a**r y  
**C**yfle  
**e**leni

CYFLE I ENNILL BASGEDAID O NWDYDDAU AR GYFER Y Nadolig  
manylion yn yr ystorfâu isod:

Wm. JONES  
PADARN STORES  
LLANBERIS

**Mace**

DOWCH YN LLUOEDD

O.R. & M. PARRY  
YSTORFA  
LLANRUG

**DIGON O BOPETH AR GYFER  
YR WYL**



# CHWARAEON

## PÊL-DROED

Ychydig iawn o bêl-droed welodd cefnogwyr tri thîm yr ardal yn ystod y mis diwethaf os nad oeddent yn fodlon teithio, oherwydd 'roedd bron pob gêm i ffwrdd oddi cartref. Er hynny, cafodd cefnogwyr Llanberis gyfle i weld y tîm ieuencid yn chwarae gartref ddwywaith er mai siomedig fu'r canlyniadau. 'Roedd holl gemau Bethel a Llanrug oddi cartref, ond 'roedd canlyniadau'r gemau i'r ddau dîm yn eithaf calonogol.

### BETHEL

Dwy gêm yn unig a chwaraeodd Bethel yn ystod y mis. I ffwrdd yn erbyn Caernarfon, a chafwyd gêm gyffrous iawn, gyda'r ddau dîm yn sgorio tair gôl yr un. Y Sadwrn diwethaf, daeth Bethel adref o Dal-y-sarn gyda dau bwynt gwerthfawr ar ôl brwydr fwdlyd a gwlyb. Enillwyd y gêm o ddwy gôl i un.

### LLANBERIS

Mis o gemau cwpan fu hwn i dimau Llanberis. Chwaraeodd gêm gyfartal yn erbyn tîm Courtalds o'r Maes Glas ddechrau'r mis, ond yn yr ail-chwarae yn Llanberis, cafodd yr ymwelwyr eu maeddu o 7 gôl i 4. Mae Llanberis bellach drwodd i 4edd Rownd Cwpan Cyfryngol Cymru, a chwaraeir y gêm honno yn erbyn Hawarden Rangers ddydd Sadwrn, Tachwedd 29. Mae bws arbennig wedi ei drefnu ar gyfer y daith hon i Glwyd. Bu'n rhaid gohirio'r gêm yn erbyn Caergybi yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru oherwydd y flwr cae Caergybi, ond rhoes yn gyfle i'r cefnogwyr wyluo tîm ieuencid y pentref yn chwarae'n erbyn Glannau Dyfrdwy yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru. Colli iu eu hanes o 3 gôl i 2; y ddau

Kevin (Jones a Williams) yn sgorio i Lanberis. Dyna'r sgôr yng Nghwpan Iau Gogledd Cymru hefyd, a chwaraeodd y Sadwrn diwethaf. Colli y tro hwn yn erbyn tîm Caernarfon.

Y Sadwrn diwethaf cafodd y tîm hyn dipyn o sioc hefyd, gan gollu'n drwm mewn gêm gynghrair yn erbyn tîm Dyffryn Nantlle. Er bod Llanberis yn ennill o dair gôl i ddwy ar un cyfnod, cafwyd cenllif o gôls gan dîm Nantlle yn ystod hanner awr olaf y gêm, a daeth Llanberis adref yn benisel iawn wedi colli o 8 gôl i 3. Maent bellach dri phwynt tu ôl i Lanrug yn y Gynghrair.

### LLANRUG

Tair gêm a chwaraeodd Lanrug yn ystod y mis, a'r rheini i gyd oddi cartref. Ennill o ddwy gôl i ddim yn Harlech ddechrau'r mis, ac yna taith arall bell i Nefyn. Yno, chwaraeodd gêm ddi-enaidd iawn, gyda Wyn Hughes yn ennill pwynt i'r tîm mewn gêm gyfartal.

Y Sadwrn diwethaf aeth Lanrug gam yn nes i ennill Cwpan Iau Gogledd Cymru, gan guro Bangor Athletic o 3 gôl i 1. Dic Owen, Ron Evans a Maldwyn Jones oedd y sgorwyr. Mae Lanrug bellach trwodd i'r 16 olaf yn y gystadleuaeth

### TABL Y GYNGHRAIR

	Ch	E	Cyf	Colli	O Bl	Yn Erb	Pt
Llanrug	14	10	3	1	39	13	23
Llanberis	13	9	2	2	45	23	20
Bethel	15	4	3	8	21	48	11



Golygfa yn un o gemau diweddar y tîm ieuencid.


### EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Cafwyd deuddeg awr o gystadlu brwd yn Neuadd Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Tachwedd 8 pryd y cynhaliwyd eisteddfod gadeiriol Llanrug. Mentrodd plant y pentref i'r llwyfan i ganu ac adrodd am y tro cyntaf lawer ohonynt, yn ystod cyfarfod y pawns, ac yn ystod cyfarfod yr hwyr clywyd amrywiol dalentau o lawer ardal yn diddanu'r gynulleidfa. Bydd Gwyn Meirion Roberts ac Olwen Meredydd Jones, yn cofio'n arbennig am Fisteddfod 1980 gan iddynt ennill cwpan yn am ddatganiadau canu ac adrodd gorau. Cyfarfod y pawns, ac yng nghyfarfod yr hwyr ychwanegodd John Hywyn o Landwrog gadair arall at ei gasgliad o gadeiriau, am gerddu'r testun 'Cofio', a chyflwynwyd medal i'r 'lenor Emyr Jones, Caernarfon am gyfres o dair stori fer. Calondid oedd gweld ymatei mor frwd a safon mor uchel i'r

cystadlaethau llenyddol hyn, a bu'r ymateb i'r cystadlaethau coginio a gwaith llaw yn hynod o dda gyda bron i ddeg ar hugain yn ymgeisio ar un gystadleuaeth. Bu cryn brysurdeb yn ffreutur yr ysgol hefyd gyda phaneidiau te a bwyd yn dderbyniol iawn gan gystadlwyr ac ymwelwyr â'r eisteddfod, a mawr fu prysurdeb y merched fu'n trefnu'r bwyd.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant yr eisteddfod; a dyma gwblhau rhestr y rhoddion ariannol gyda'r rhoddion a ddaeth i law wedi argraffu rhaglen y dydd - Mrs L.A. Homnau Venice £1. Mr T.D. Homnau Venice £1. Mr D. Homnau, Llanfechell £1. Mr Glyn Owen, Llanysfran £5. Di-enw Llanrug £3. Mr Emyr Jones, Parc Isaf £5. Cyngor Cymuned Llanrug £25.

## Cedric



(Parhad o'r dudalen flaen)

sbwriel ar lan ddeheuol llyn Padarn. Cynhwysai'r gwaith adeiladu llynglawdd a chryn lawer o waith tirlunio.

"Cyngor Bwrdeistref Arfon a ymgymrodd â'r dasg, gan ddefnyddio tîm o bobl ddi-waith a gyflogid gyda chyllid o Gomisiwn Gwasanaethau'r Llafurlu (MSC); Gwnaeth y cynllun welliannau mawr i lannau'r llyn gan greu maes gweithgareddau hamdden o'r radd flaenaf i drigolion lleol ac ymwelwyr. Y mae safon adeiladwaith wal garreg y maes yn arbennig o gymen, canys er mai dynion ifainc di-grefft a'i

cododd, mae'n amlwg fod arolygydd y cynllun yn grefftw'r o'r radd flaenaf. Mater o'r pwys mwyaf yw'r dewis o arolygydd mewn cynlluniau o'r fath. Gydag arolygydd o'r iawn ryw, fe all timau ieuencid ar gyllid yr MSC wneud gwaith proffesiynol iawn ei safon.

Gweithredwyd yn ôl cynlluniau'r safle mewn modd chwaethus ac ystyriol. Trwy ddefnyddio math o garreg leol a thechnegau adeiladu lleol, a thrwy blannu rhywogaethau o goed a phrysgwydd lleol, crewyd maes hamdden tra phrydferth. Mae'r darn tir hwn, a fu gynt yn ddiffaith, yn asio'n berffaith â'r tirlun oddi amgylch erbyn hyn."

## DIM OND LLE BU

